# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)-02-11 : Papur 1

### Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2010 Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2010**

## Rhagair

Mae hon wedi bod yn flwyddyn brysur i'r Cynulliad, wrth inni gymryd camau breision gyda'n Cynllun Cydraddoldeb a pharatoi i sicrhau bod ein dyheadau ym maes cydraddoldeb yn unol â Deddf Cydraddoldeb newydd 2010. Cynhaliwyd ein Mis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cyntaf hefyd ym mis Mehefin, gan godi ymwybyddiaeth o amrywiaeth o faterion ymhlith y staff ac Aelodau'r Cynulliad. Mae'r Pierhead sydd newydd ei adnewyddu'n cynnig canolfan wych i bobl Cymru ei defnyddio, a lle iddynt drafod a chreu. Yn ystod digwyddiadau megis Mis Hanes Teithwyr Sipsiwn Roma, gwelsom y Pierhead yn cyflawni'i botensial fel man cyhoeddus deniadol.

Gwnaeth llwyddiant rhaglen Camu Ymlaen Cymru argraff fawr arnaf i'n bersonol ac roeddwn yn falch o weld y Cynulliad yn llwyddo i gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill er mwyn cryfhau ein democratiaeth er mwyn i'n tirwedd sifil a gwleidyddol adlewyrchu amrywiaeth y bobl y mae'n eu gwasanaethu.

Gan edrych tua'r dyfodol, at y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad ac Etholiadau'r Cynulliad yn 2011, mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi gwybodaeth ar sawl gwahanol fformat hygyrch i esbonio i'r pleidleiswyr beth mae Pleidleisiwch yn 2011yn ei olygu i Gymru. Wrth inni gamu ymlaen i'r Pedwerydd Cynulliad, yr wyf am inni sicrhau na wnaiff y Cynulliad golli'r symbyliad i hyrwyddo cydraddoldeb ym mhopeth a wna, er mwyn i'n gwasanaethau, ein gwybodaeth a'n hadeiladau fod yn hygyrch i bawb, a bod hyn yn parhau'n un o flaenoriaethau ein cyllideb ac yn un o weithgareddau craidd cyfathrebu â phob dinesydd.

Ga'i achub ar y cyfle hwn i gydnabod cyfraniad aelodau o'r staff sydd wedi gadael y gwasanaeth yn ddiweddar. Roedd Denise Rogers yn gweithio i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ac yn lladmerydd brwd dros gydraddoldeb yn y sefydliad. Gadawodd Christine Morgan, Cynghorydd Hygyrchedd y Cynulliad, ei swydd hithau y llynedd. Yn sgil ei hymroddiad a'i hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb, gan roi sylw penodol i sicrhau cyfiawnder i bobl anabl, llwyddodd i gyflawni nifer o bethau pwysig yn ystod ei chyfnod yma. Ynghyd â gweddill y Tîm, dymunwn yn dda iddynt, gan adnewyddu'n hymrwymiad i bob agwedd ar yr agenda cydraddoldeb.

**Y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad**

## 01_Crynodeb

Mae Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cynulliad Cenedlaethol 2010 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth roi Cynllun Cydraddoldeb y Cynulliad 2008-2011 ar waith. Bwriedir i'r Cynllun a'i gynllun gweithredu gynorthwyo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth iddo hybu cydraddoldeb, rhoi gwerth ar amrywiaeth, ac adnabod a dileu'r pethau hynny a allai ein rhwystro rhag sicrhau cydraddoldeb i'n staff, i Aelodau'r Cynulliad, i'w staff hwythau ac i'r cyhoedd a wasanaethir gennym.

Mae'r adroddiad yn sôn am rywfaint o'r gwaith rydym wedi'i wneud yn 2010 i hybu cydraddoldeb. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ein fframwaith cydraddoldeb a rhywfaint o ddata monitro cydraddoldeb. Rydym hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y byddwn yn mynd ati i gefnogi ein staff, Aelodau'r Cynulliad a'u staff hwythau o ran cydraddoldeb. Rydym yn edrych ar y gwasanaethau a ddarparwn ar gyfer aelodau'r cyhoedd, sut y byddwn yn ymgysylltu â'r bobl drwy Gymru ac yn annog pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad. Yn Atodiad A yr adroddiad, ceir diweddariad o'n hamcanion manwl ym maes cydraddoldeb.

Dyma rai o uchafbwyntiau 2010:

- Cwblhau Cynllun partneriaeth Camu Ymlaen Cymru
- Mis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ym mis Mehefin i godi ymwybyddiaeth staff, Aelodau'r Cynulliad a'u staff hwythau
- Hyrwyddo ein polisi a'n pecyn gwybodaeth hygyrch ymhlith y staff
- Cynnal arolwg staff a dadansoddi'r hyfforddiant y mae ei angen er mwyn cynllunio ein rhaglen dysgu a datblygu ym maes cydraddoldeb
- Ailagor y Pierhead yn adnodd i bobol Cymru
- Cyrraedd safle 47 ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall y Deyrnas Unedig yn 2010
- Llunio fersiwn derfynol ein polisi newydd i'r staff ynglŷn ag Ailbennu Rhywedd
- Cyhoeddi adroddiad ‘Dringo’r Wal’ ar sail ein digwyddiad i nodi'r Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl
- Gweithio gyda’n partneriaid i ddathlu a chydnabod digwyddiadau cydraddoldeb penodol
- Sicrhau cydnabyddiaeth Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP) – safon aur
- Rhoi gwybodaeth sylfaenol i’r staff am Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Bydd ein blaenoriaethau ar gyfer 2011 yn cynnwys:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 – paratoi ar gyfer y ddyletswydd gydraddoldeb yn y sector cyhoeddus a datblygu hyfforddiant staff
- Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb – gwella'r pecyn a'r system sydd gennym eisoes
- Gwybodaeth am Gydraddoldeb i Aelodau'r Cynulliad yn y Pedwerydd Cynulliad – sicrhau bod yr wybodaeth i Aelodau fel cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau ar gael ac yn gyfredol
- Adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb a chyhoeddi Cynllun newydd erbyn mis Ebrill 2012
- Parhau i wella'r data sydd gennym am gydraddoldeb ymhlith ein staff
- Gwneud ein gwefan yn fwy hygyrch
- Arwyddion Braille – gan eu diweddaru drwy'r ystâd lle bynnag y bydd angen
- Datblygu polisi amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed

**02_Fframwaith Cydraddoldeb yn y Cynulliad**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn sefydliad sy'n gwbl ymroddedig i gyfle cyfartal. A dweud y gwir, mae'n rhan o'n DNA. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, y darn o gyfraith a greodd y Cynulliad, mae'n ddyletswydd arnom i hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'r ddyletswydd hon wedi cael ei hehangu yn Neddf Cydraddoldeb ddiweddar 2010 sy'n golygu bod ar y Cynulliad fwy o ddyletswyddau eto i ystyried a hyrwyddo cydraddoldeb.

I'n cynorthwyo ni gyda'r cyfrifoldeb hwn, rydym wedi datblygu Datganiad Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb sy'n esbonio sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn.

Ein gweledigaeth yw bod yn sefydliad sy'n arwain yn ein hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb, i roi gwerth ar amrywiaeth ac i barchu hawliau dynol fel cyflogwr ac fel sefydliad sy'n cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad ac sy'n ymwneud â'r cyhoedd.

Credwn fod cyfle cyfartal i bawb yn hawl ddynol sylfaenol ac rydym yn gwrthwynebu'n chwyrn bob ffurf ar wahaniaethu anghyfreithlon ac annheg.

Rydym yn ymdrechu i greu corff seneddol agored ac effeithiol, sy'n ymgysylltu â holl bobl Cymru ac yn eu parchu.

Dyma werthoedd y sefydliad:

- Hyrwyddo, parchu a rhoi gwerth ar gyfle cyfartal ac amrywiaeth
- Herio a dileu aflonyddu a gwahaniaethu
- Adnabod a dileu'r pethau sy'n ein rhwystro rhag sicrhau cydraddoldeb
- Ymddwyn fel esiampl o gyflogwr a darparwr gwasanaethau hygyrch
- Rhoi gwerth ar gyfraniad ein staff a chynorthwyo pob unigolyn i wireddu'i botensial llawn
- Anelu at sicrhau bod ein gweithlu'n cynrychioli amrywiaeth ein cymdeithas
- Ehangu cyfranogi ac ymgysylltu ledled Cymru
- Hyrwyddo agweddau cadarnhaol a chysylltiadau da rhwng yr holl grwpiau o bobl
- Derbyn model cymdeithasol anabledd, gan gydnabod mai'r rhwystrau a grëir gan gymdeithas sy'n creu anabledd, nid nam

Ein nod yw cyflawni ein hamcanion a hyrwyddo ein gwerthoedd drwy roi ar waith ein Cynllun Cydraddoldeb a'r Cynllun Gweithredu ynghyd â pholisïau eraill sy'n gefn iddynt, a'u monitro'n frwd; hyfforddi a chynorthwyo staff, Aelodau'r Cynulliad a'u staff hwythau drwy ddarparu hyfforddiant perthnasol iddynt am gydraddoldeb a thrwy gynnal gweithgareddau codi

ymwybyddiaeth; cynnwys ein staff ac aelodau'r cyhoedd yn ein prosesau asesu effaith a phenderfynu; a gweithredu, lle bo hynny'n briodol, ar sail adborth ac awgrymiadau

Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r gwaith rydym wedi bod yn ei wneud yn 2010 i wireddu'r gwerthoedd a restrir uchod. Cyflwynir yr adroddiad i Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad. Gwaith hwnnw yw sicrhau ein bod yn gwneud popeth yn ein gallu i hyrwyddo cyfle cyfartal.

**03_Uchafbwyntiau'r Gweithgarwch a'r Cynnydd yn 2010**

**Camu Ymlaen Cymru**

Datblygwyd Cynllun Camu Ymlaen Cymru ar y cyd rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac roedd ar waith rhwng mis Hydref 2009 a mis Ebrill 2010. Daeth y syniad am gynnal cynllun peilot Camu Ymlaen yn sgil adborth a gwerthuso Cynllun Cysgodi Ymgyrch y Bleidlais Ddu a gynhaliwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod 2007/2008 gyda'r nod o sicrhau bod mwy o bobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig eraill yn cael eu cynrychioli yn y grwpiau/pleidiau gwleidyddol. Wrth adeiladu ar waith y Cynllun blaenorol, nod y bartneriaeth oedd sicrhau bod pobl yng Nghymru a oedd yn teimlo nad oedd ganddynt gynrychiolaeth ddigonol ym maes gwleidyddiaeth a/neu fywyd sifil yn cymryd mwy o ran yn y broses ddemocrataidd ac yn dod yn ddinasyddion brwd.

Bu Aelodau'r Cynulliad a Chynghorwyr Lleol o bob cwr o Gymru'n rhan o'r Cynllun gan wirfoddoli i fentora pobl o blith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a'u gwahodd i'w cysgodi yn eu gwaith fel aelodau etholedig. Bu tri deg a phedwar o barau mentora'n rhan o'r Cynllun ledled Cymru.

**Tabl: Y rhai a fanteisiodd ar y cynllun mentora yn ôl y nodweddion a warchodir**

| | Ceisiadau | Rhestr fer | Ymgeiswyr llwyddiannus |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 79 | 58 | 36* |
| Menywod | 54 | 40 | 27 |
| Dynion | 24 | 15 | 9 |
| Trawsryw | 1 | 1 | 0 |
| Pobl anabl | 40 | 24 | 12 |
| Pobl dduon neu leiafrifoedd ethnig | 21 | 16 | 14 |
| Lesbiaid, hoywon neu bobl ddeurywiol | 7 | 5 | 3 |
| O dan 25 | 8 | 6 | 5 |
| Dros 55 | 19 | 12 | 6 |

Dechreuodd *34 gael eu Mentora dan y Cynllun

Roedd gofyn i bawb a gymerodd ran gael deg 'profiad' o leiaf gyda'u Mentor, megis mynd i gymhorthfa'r cyngor, i un o gyfarfodydd pwyllgor y Cynulliad,

ymweld ag etholaeth neu ymgyrch. Yn ogystal â'r profiadau, cynigiwyd cynllun hyfforddi iddynt a oedd yn cynnwys amrywiaeth o gyrsiau gyda'r nod o wella'u gwybodaeth, magu eu hyder a'u gwneud yn ddinasyddion brwd.

Cyhoeddwyd adroddiad gwerthuso ac mae hwnnw ar gael ar wefan y Cynulliad. Dyma rai o brif ganfyddiadau'r adroddiad:

- Roedd y rhai a gafodd eu mentora'n deall llawer mwy am wahanol lefelau'r llywodraeth erbyn i'r cynllun ddod i ben
- Daeth y rhai a gafodd eu mentora i ddeall yn well o lawer y gwahaniaethau rhwng y sefydliadau gwleidyddol yn ystod y cynllun
- Roeddent yn deall mwy am rolau cynrychiolwyr etholedig: Aelodau'r Cynulliad, cynghorwyr lleol ac ASau
- Roeddent hefyd yn ymddiried mwy mewn gwleidyddion
- Gofynnwyd i'r rhai a gafodd eu mentora roi sgôr iddynt hwy eu hunain fel dinasyddion brwd a'r sgôr cyfartalog ar y cychwyn oedd 4.4 allan o 10 o'i gymharu ag 8.1 allan o 10 erbyn diwedd y cynllun

Ers cymryd rhan yn y Cynllun, mae nifer o'r rhai a gafodd eu mentora eisoes wedi bod yn ymwneud mwy â'r gymdeithas sifil, gan gynnwys gweithio'n fwy clos gyda phleidiau gwleidyddol, sefyll etholiad, ymuno â chyrff eiriol neu gyrff cynrychioli lleol, neu ddod yn fwy gweithgar yn eu cymuned leol.

"Felly, mae gen i lawer mwy o hyder ers ymwneud â Cham Ymlaen Cymru, dyna'r union beth oedd ei angen arna'i."
(Un o'r rhai a fentorwyd yn ystod Camu Ymlaen)
"Mi ymunes i â'r cynllun hwn heb wybod fawr ddim am y broses wleidyddol" Erbyn diwedd y cynllun, roedd gen i lawer iawn o wybodaeth, a rŵan, rwy'n gallu gwneud dewisiadau a gwneud penderfyniadau am wleidyddiaeth mewn ffordd na fyddwn i erioed wedi dychmygu o'r blaen." (Un o'r rhai a Fentorwyd yn ystod Camu Ymlaen)
"Mae'r cynllun hwn wedi mynd â fi ar y fath daith, rwy' wedi dysgu a thyfu gymaint...eto i gyd, mae gen i gymaint mwy i'w ddysgu a'i wneud!  Mae fy mywyd i'n dilyn trywydd cwbl newydd ac rwy'n eithriadol o hapus efo hynny." (Un o'r rhai a Fentorwyd yn ystod Camu Ymlaen)

**Mis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Mehefin 2010**

Drwy gydol mis Mehefin, trefnodd y Tîm Cydraddoldeb a Hygyrchedd, ynghyd â chydweithwyr ym mhob rhan o'r sefydliad, nifer o ddigwyddiadau i ddathlu Mis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y Cynulliad.  Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Ail-lansiwyd ein safle mewnrwyd sy'n adnodd i'r staff i gyd. Ar ein safle newydd, mae gwybodaeth am ein fframwaith corfforaethol, ein cyhoeddiadau, digwyddiadau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, gwybodaeth am sut y gallwn ni gynorthwyo staff ac Aelodau'r Cynulliad a gwybodaeth am bob un o'r nodweddion a warchodir.
- Trefnwyd cyfarfod ag eiriolwr dros bobl drawsryw a oedd yn hyrwyddo cydraddoldeb iddynt
- Digwyddiad Deall Islam - daeth nifer dda o'r staff i'r digwyddiad hwn. Rhoddodd Sheikh Kamal al-Idrisy gyflwyniad i'r ffydd i'r rhai a oedd yn bresennol, ac edrychwyd ar rai o'r camargraffiadau sydd ar led. Soniodd un o gyn-aelodau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau am ei phrofiad o droi at Islam ac am rai o'r pethau cadarnhaol a negyddol y mae hi wedi'u hwynebu. Sbardunwyd y sesiwn gan aelod o'r staff a oedd am edrych ar sut y gellid gwrthweithio rhywfaint o'r cyhoeddusrwydd negyddol am y ffydd.
- Cefnogwyd ymgyrch Cerdyn Coch i Hiliaeth gan dîm pêl-droed y Cynulliad mewn gêm a chwaraewyd (ac a enillwyd) yn Stadiwm y Mileniwm.
- Bu ffair lles y Tîm Iechyd Corfforaethol yn llwyddiannus iawn a chyflwynwyd gwybodaeth i'r staff am sut mae byw bywydau bodlon ac iach.
- Bu lansio polisïau Urddas yn y Gwaith a Cham-drin Domestig newydd y Cynulliad yn llwyddiannus iawn hefyd a daeth nifer dda i'r digwyddiad. Roedd y cyflwyniad am ei phrofiad gan un a oedd wedi goroesi cam-drin domestig yn rymus iawn ac roedd yn dangos pam mae'n bwysig cael gweithle cefnogol a pholisi effeithiol.
- Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau hefyd gan gynnwys Wynebu Cydraddoldeb, ymgyrch yn erbyn homoffobia a thrawsffobia, ac Wythnos Ffoaduriaid.

"Doeddwn i ddim yn deall pam roedd cam-drin domestig yn broblem i'r gweithle. Roedd clywed gan rywun a oedd wedi goroesi cam-drin domestig yn bwysig am ei fod wedi dod â'n polisi'n fyw."
(Un o'r rhai fu'n bresennol wrth lansio'n polisi Cam-drin Domestig)

**Polisi gwybodaeth hygyrch**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl wybodaeth y byddwn yn ei chynhyrchu'n hygyrch ac yn ddealladwy i bawb yng Nghymru. I'n cynorthwyo ni gyda'r ymrwymiad hwn, paratowyd polisi a phecyn am wybodaeth hygyrch gan dîm Cydraddoldeb y Cynulliad. Hyrwyddwyd y pecyn hwn i holl aelodau'r staff yn ystod Mis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

**Arolwg staff a dadansoddi anghenion hyfforddi**

Fel rhan o'r Mis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, cynhaliwyd arolwg a dadansoddi'r anghenion hyfforddi er mwyn casglu tystiolaeth am brofiadau

ein staff yn y sefydliad a gweld pa hyfforddiant y mae ei angen o ran yr agenda cydraddoldeb. Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau'n holi am ymwybyddiaeth pobl o sut mae'r Cynulliad yn cynorthwyo gweithwyr amrywiol; agweddau a ffyrdd o ymddwyn roeddent wedi bod yn dyst iddynt ac wedi'u hwynebu yn y Cynulliad; awgrymiadau ar gyfer gwelliannau; gweld bylchau yn yr hyfforddiant a ffurflen monitro cydraddoldeb. Bydd canlyniadau'r arolwg yn gymorth i ddatblygu rhaglen hyfforddi am gydraddoldeb ac i weithio tuag at fynd i'r afael ag unrhyw aflonyddu / ymddygiad annerbyniol yn y Cynulliad.

**Ailagor y Pierhead**

Ar ôl misoedd o waith adnewyddu sylweddol, ail-agorwyd drysau adeilad y Pierhead, sy'n nodfan ym Mae Caerdydd, i ysgwyddo'i rôl newydd fel canolfan i gynnal digwyddiadau ac fel atyniad i ymwelwyr. Ailddatblygwyd yr adeilad gyda chymorth grŵp hygyrchedd pobl anabl er mwyn sicrhau bod yr adeilad mor hygyrch ag y bo modd, ac ystyried ei gyfyngiadau am ei fod yn adeilad rhestredig.

**Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall 2010**

Unwaith eto, gwnaeth y Cynulliad gais am gael ei gynnwys ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, ymarfer meincnodi i ganfod y cyflogwyr mwyaf hoyw-gyfeilolgar yn y Deyrnas Unedig. Gan gydnabod y gwaith caled mae timau wedi'i wneud ar draws y sefydliad, fe'n gwobrwywyd drwy ein rhoi yn safle 47 ar y mynegai, sy'n welliant ers 2009, (safle 73) a 2008, (safle 208).

"Rwy'n falch iawn o weithio i sefydliad sy'n cael ei ystyried un o'r cyflogwyr mwyaf hoyw-gyfeillgar ym Mhrydain. Mae'r Cynulliad yn rhoi llawer o gefnogaeth i staff LHD. Mae ein rhwydwaith staff, ein Tîm Cydraddoldeb, polisïau Adnoddau Dynol a'n Hadran Cysylltiadau Allanol i gyd yn hyrwyddo cydraddoldeb LHD yn frwd." (Aelod o OUT-NAW, rhwydwaith staff LHDT )

**Polisi Ailbennu Rhywedd**

Mae'r Cynulliad wedi gweithio gydag eiriolwyr dros bobl drawsryw i ddatblygu polisi i'n galluogi i gynorthwyo aelod o'r staff sydd wedi ailbennu ei rywedd, neu un sydd wrthi neu'n bwriadu gwneud hynny.

**Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl**

Dathlodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl 2009 drwy gynnal diwrnod cadarnhaol a neilltuwyd i drafod sicrhau bod democratiaeth yn hygyrch i bawb a'r cynnydd yn nifer y troseddau casineb yn erbyn pobl anabl. Ar ôl y digwyddiad, cyhoeddwyd adroddiad gan y tîm Cydraddoldeb, dan y teitl Dringo'r Wal ac roedd hwnnw'n awgrymu sut y gellir ei gwneud yn haws i bobl ymwneud â democratiaeth ac yn ystyried troseddau casineb yn erbyn pobl anabl. Anfonwyd yr adroddiad at sefydliadau perthnasol er mwyn iddynt roi sylw iddo. Gan fwrw ymlaen â'r awgrym ynglŷn â gwybodaeth hygyrch, dathlodd y Cynulliad Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl ym mis Rhagfyr 2010 drwy lansio cyfres o wybodaeth hygyrch yn hyrwyddo etholiad a refferenda 2011.

**Dathlu Cydraddoldeb**

Mae'r Cynulliad wedi dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy gydol y flwyddyn. Er enghraifft, buom yn gweithio gyda nifer o bartneriaid i ddathlu mis hanes LHDT, cynhaliwyd trafodaeth am Fenywod mewn Democratiaeth, cynhaliwyd digwyddiad ac arddangosfa ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon, rydym wedi cynnal digwyddiadau ar gyfer Diwali, Cymorth i Fwslimiaid, y Cyngor Ffoaduriaid, buom yn bresennol yn y Mardi Gras ac rydym wedi cynyddu ymwybyddiaeth staff drwy gyfrwng cyhoeddiadau mewnol ac wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau.

**Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP) - y Safon Aur**

Mae'r Cynulliad wedi cael cydnabyddiaeth Safon Aur gan Fuddsoddwyr mewn Pobl. Mae BmP yn cynnig fframwaith ar gyfer gwella perfformiad sefydliad a'i allu i gystadlu drwy gynllunio i osod amcanion busnes a'u cyfleu i bobl a thrwy ddatblygu pobl i gyflawni'r amcanion hyn. Mae canlyniad yr asesiad yn adlewyrchu ymrwymiad y sefydliad yn y ffordd y mae'n rheoli pobl ac yn cynnwys staff wrth ymdrechu i wella'n barhaus. Roedd ein Hasesydd yn llawn edmygedd o'n gwaith a dywedodd ei bod yn gallu gweld bod pethau'n digwydd yma bob dydd. Canmolodd ein diwylliant, ein harweiniad rhagorol a'n modelau rôl gan sôn am deyrngarwch, parch, ymddiriedaeth a balchder yn y sefydliad.

**Ymwybyddiaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Ers ei chyhoeddi, mae'r Cynulliad wedi gweithio gyda sefydliadau partner i godi ymwybyddiaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am y Ddeddf lle daeth ymarferwyr ym maes cydraddoldeb at ei gilydd o bob cwr o'r de i rannu gwybodaeth a'r arferion gorau. Gwahoddwyd bargyfreithwyr lleol hefyd i siarad â rhai o'n staff am oblygiadau'r Ddeddf ar gyfer y Cynulliad fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau.

## 04 - Ein Gweithlu

Yn ein hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn 2009, dywedwyd mai ein gweithlu yw ein caffaeliad mwyaf. Mae hyn yn dal yn wir. Rydym yn ffodus iawn o gael gweithlu sy'n ymroddedig i waith y Cynulliad ac i hyrwyddo cysyniad cydraddoldeb. Rydym yn cefnogi'n gweithwyr i gyd ac yn datblygu diwylliant sy'n hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb a pharch.

### Proffil y gweithlu

Er gwaetha'n hymdrechion dros y flwyddyn diwethaf, mae bylchau o hyd yn ein data monitro staff. Mae'r wybodaeth sydd gennym ar gael yn Atodiad B. Yn ystod 2011, byddwn yn gweithio tuag at sicrhau darlun mwy cyflawn o broffil ein gweithlu.

### Data recriwtio

Mae gwybodaeth am natur amrywiol y sawl sy'n ymgeisio am swyddi ar gael yn Atodiad C.

## 05_Staff Cymorth

### Y Tîm Cydraddoldeb ac Adnodd Newydd y Fewnrwyd

Mae'r Tîm Cydraddoldeb yn cynghori staff, Aelodau'r Cynulliad a'u staff hwythau am faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hygyrchedd. Eleni, diweddarwyd tudalennau'r fewnrwyd sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth i gynnig adnodd gwybodaeth sy'n cynnwys diweddariadau am gyfraith cydraddoldeb, cyngor ymarferol am ddarparu gwasanaeth hygyrch a manylion cyswllt y Tîm.

"Mae gwefan y Tîm Cydraddoldeb ar y fewnrwyd yn cynnig llawer o wybodaeth, cyngor ac arweiniad defnyddiol i staff. Mae'r wybodaeth am y Ddeddf Cydraddoldeb newydd yn gymorth mawr."
(Sylw gan Bennaeth un o'n Gwasanaethau)

### Tîm Gweithrediadau Adnoddau Dynol

Mae'r Tîm Gweithrediadau Adnoddau Dynol yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau i holl staff y Cynulliad, gan gynnwys cyngor ac arweiniad am faterion sy'n ymwneud â staff, i'w galluogi i gyflawni eu gwaith yn effeithlon, yn effeithiol ac yn hyderus. Bydd y Tîm yn gweithio'n glos gyda'u cydweithwyr yn y Tîm Cydraddoldeb, yn enwedig yng nghyswllt datblygu polisïau cysylltiedig â chyflogaeth a monitro cydraddoldeb.

### Addasiadau Iechyd a Diogelwch

Yn unol â chyfraith iechyd a diogelwch, bydd Cynghorydd Iechyd a Diogelwch y Cynulliad yn sicrhau bod amgylchedd gweithio'r staff yn ergonomig ac yn hygyrch. Isod, ceir ambell sylw gan staff sydd wedi cael cymorth ychwanegol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud eu gwaith yn effeithiol ac yn gyfforddus er gwaethaf anabledd neu gyflwr tymor hir sy'n effeithio ar eu gallu i gyflawni eu gwaith.

"Rwy'n dioddef o spondyloarthritis seronegyddol: arthritis sy'n effeithio ar fy asgwrn cefn, fy nghluniau, fy mhengliniau, fy nwylo a'm hysgwyddau. Mae hyn yn cael effaith enfawr ar fy ngallu i symud ac mae'n effeithio ar fy mywyd gwaith. Mae'r cymorth rwy' wedi'i gael gan y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch a'i dîm wedi bod yn rhyfeddol. Maen nhw wedi rhoi offer imi i wneud fy niwrnod gwaith yn llai poenus ac felly'n fwy cynhyrchiol. Mae'r cymorth rwy'n ei gael ganddyn nhw o hyd yn

gymorth imi ddal ati i weithio ac rwy'n eithriadol o ddiolchgar iddyn nhw." (AMSS)

"Mae ymdrechion y Cynghorydd Iechyd a Diogelwch a'r rheolwyr i liniaru effaith y boen a'r annifyrrwch y bydda i'n ei ddiodde'n ddyddiol oherwydd RSI wedi bod yn ddiguro - o ddarparu offer i gymorth ymarferol i reoli straen meddwl. Rwy' hefyd wedi cael cymorth y Nyrs Iechyd Galwedigaethol ac wedi cael therapi cwnsela a rheoli straen meddwl drwy gyfrwng y Rhaglen Cynorthwyo Gweithwyr. Mae'r dosbarthiadau Techneg Alexander sydd wedi'u trefnu wedi bod o fudd eithriadol hefyd. Heb hyn i gyd, rwy'n amau a fyddwn i'n dal i weithio'n amser llawn, os o gwbl." Staff y Cynulliad)

## Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng

Mae'r Tîm Cydraddoldeb a'r Tîm Iechyd a Diogelwch wedi cydweithio i gyhoeddi arweiniad am baratoi Cynlluniau Personol i staff anabl y gall fod angen cynllun o'r fath arnynt. Mae'r Cynlluniau hyn yn sicrhau bod staff anabl yn gallu gadael eu gweithle'n ddiogel a chydag urddas os bydd argyfwng, beth bynnag y bo'u gofynion penodol.

## Rhwydweithiau staff

Ar hyn o bryd, ceir dau rwydwaith staff: Embrace (ein rhwydwaith i staff anabl) ac OUT-NAW (ein rhwydwaith i staff LHDT). Mae rhwydwaith staff Duon a Lleiafrifoedd Ethnig ar fin cael ei sefydlu hefyd yn dilyn ceisiadau gan y staff hynny. Pwrpas y rhwydweithiau yw hyrwyddo amgylchedd gweithio diogel a chynhwysol a chynghori Comisiwn y Cynulliad am faterion a allai effeithio ar staff o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Un o'u prif swyddogaethau yw bwydo i'r drefn datblygu polisïau. Yn ddiweddar, rhai o'r enghreifftiau mwyaf nodedig o hyn oedd y Polisi Urddas yn y Gwaith a'r Polisi Cam-drin Domestig. Mae'r rhwydweithiau'n cael eu cynnal gan staff, i staff ac maent yn rheoli eu cyllideb hwy eu hunain.

"Mae Embrace, ein fforwm i staff anabl yn cynnig cyngor a chymorth i aelodau anabl y staff. Rydym hefyd yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad gan ei bod yn bwysig bod gan staff anabl lais yn y sefydliad." (Aelod o Embrace)

**Rhaglen Gymorth i Weithwyr**

Lein gymorth gyfrinachol yw'r gwasanaeth hwn y gall staff droi ato i gael cyngor am sawl peth. Rhai o'r problemau yr ymdrinnir â hwy yw dyledion, straen meddwl, gwaith, perthynas â phobl a phryderon personol. Drwy'r lein gymorth, gellir cael gafael hefyd ar wasanaethau cwnsela wyneb-yn-wyneb mewn ardaloedd lleol.

**Gweithio Hyblyg**

Mae Busnes y Cynulliad yn gweithio ar sail yr egwyddor y dylid cynnig oriau gweithio sy'n deg i'r teulu. Ceisir osgoi amserlennu Busnes y Cynulliad cyn 9.00 neu ar ôl 18.00 os oes modd.

Cynigir nifer o ddewisiadau gweithio hyblyg er mwyn i'r staff allu sicrhau cydbwysedd rhwng eu hymrwymiadau yn y gwaith a gartref. Er bod anghenion y staff yn cael eu cydbwyso ag anghenion y busnes, mae'r dewisiadau sydd ar gael yn cynnwys gweithio gartref, gweithio llai o oriau, gweithio oriau cywasg, gweithio rhan-amser, gweithio oriau hyblyg a gweithio yn ystod y tymor.

**Dysgu a datblygu**

Dros y flwyddyn diwethaf, mae'r Cynulliad wedi cynnig nifer o gyfleoedd hyfforddi er mwyn annog y staff i ddysgu rhagor am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y Cynulliad a ledled Cymru. Mae'r hyfforddiant wedi cynnwys y canlynol:

- Mae nifer o'r staff bellach wedi cwblhau Lefel 1 Iaith Arwyddion Prydain ac yn edrych ymlaen at ddechrau Lefel 2 yng Ngwanwyn 2011. Mae'r cwrs wedi galluogi'r staff i gynnal sgyrsiau sylfaenol â defnyddwyr BSL ac maent eisoes wedi gweld ei bod yn beth defnyddiol.

> "Mae iaith arwyddion wedi bod o ddiddordeb imi erioed, yn enwedig gan fy mod yn gweithio ym maes gwasanaeth cwsmeriaid. Roeddwn i'n gallu cyfarfod a chyfarch ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad a chanddynt anawsterau clyw ychydig wythnosau ar ôl dechrau'r cwrs. Erbyn y trydydd arholiad terfynol, roeddwn i'n gallu helpu gydag ymwelwyr byddar â digwyddiad yn y Pierhead. Erbyn hyn, rwy'n hynod o awyddus i ddechrau lefel 2 er mwyn imi feithrin mwy o hyder a gallu cynnal sgwrs hirach sy'n llifo gydag ymwelwyr â'r Cynulliad." (Dysgwr BSL)

- Ym mis Mehefin 2010, cynhaliwyd mis o weithgareddau gan y Tîm Cydraddoldeb i hyrwyddo cydraddoldeb ymhlith holl staff y Cynulliad,

Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth, gan gynnwys ymwybyddiaeth o drawsrywedd, sesiwn ar Ddeall Islam, cymorth i bobl sy'n dioddef cam-drin domestig, afiechyd meddwl, a chyhoeddi gwybodaeth hygyrch. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau, lansiadau ac arddangosfeydd hefyd gan gynnwys Balchder Anabledd, Wythnos Ffoaduriaid, gwrth-homoffobia a gwrth-trawsffobia a Mis Hanes Teithwyr Sipsiwn Roma

"Cyn y digwyddiad, roeddwn i'n eitha' anwybodus am Islam ond erbyn hyn, rwy'n sicr yn deall mwy amdano. Mi ges i ateb i lawer o gwestiynau, yn enwedig ynglŷn â'r camargraffiadau yn y cyfryngau.

- Hefyd, fel rhan o'r Mis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, lansiwyd ein safle Cydraddoldeb ar y fewnrwyd, safle sydd wedi'i ailddatblygu. Mae'r tudalennau newydd hyn yn cynnig gwybodaeth, cyngor ac adnoddau eraill i staff y Cynulliad.

- Er mwyn cwblhau Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn llwyddiannus, cafodd ein Tîm Cydraddoldeb rywfaint o hyfforddiant allanol. Mae Asesiadau Effaith yn un ffordd o sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y Cynulliad yn ystyried a fydd unrhyw effaith negyddol neu gadarnhaol ar wahanol grwpiau o bobl. Yn ystod yr hyfforddiant, darparwyd gwybodaeth gefndir ddefnyddiol ac enghreifftiau ymarferol. Er ein bod wedi cynnal asesiadau anffurfiol yn y gorffennol, mae'r Tîm wrthi yn awr yn llunio fersiwn derfynol ein Pecyn Asesu Effaith er mwyn ein cynorthwyo i fynd ati mewn ffordd fwy ffurfiol.

- Hyfforddiant yn canolbwyntio ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 - Mae nifer o'r staff wedi cael hyfforddiant sy'n edrych ar sut mae'r Ddeddf Cydraddoldeb newydd yn effeithio ar waith y Cynulliad. Gwahoddwyd tîm o fargyfreithwyr gan ein Hadran Gyfreithiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am y Ddeddf newydd a chynhaliwyd cynhadledd Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru gan y Tîm Cydraddoldeb ynglŷn â goblygiadau'r Ddeddf newydd. Ar sail y cyfleoedd hyn, mae'r Tîm Cydraddoldeb wrthi'n gweithio'n glos gyda'n cydweithwyr ym maes Adnoddau Dynol i ddatblygu strategaeth dysgu a datblygu ym maes cydraddoldeb ar gyfer 2011. Bydd hyn yn galluogi holl staff y Cynulliad i gael gwybod rhagor am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

- Ers i'n Cynghorwr Mynediad ymadael â'i swydd fel rhan o'n cynllun diswyddo gwirfoddol, mae gweddill aelodau'r Tîm Cydraddoldeb yn cael hyfforddiant Archwilio Hygyrchedd er mwyn gwneud iawn am y diffyg arbenigedd.

- Cynhaliwyd seminarau 'Ystyried Cydraddoldeb' er mwyn i ymchwilwyr yn y Gwasanaeth Ymchwil i Aelodau gael profiad ymarferol o roi eu canllawiau mewnol ar waith wrth ystyried materion cydraddoldeb. At hynny, cynhaliwyd seminarau'n ymwneud â phynciau penodol i ymchwilwyr, gan gynnwys seminar am gyllidebu ar gyfer rhywedd.

- Mae staff o bob cwr o'r Cynulliad hefyd wedi bod mewn cynadleddau a diwrnodau hyfforddi sy'n ymwneud â chydraddoldeb, gan gynnwys digwyddiadau a drefnwyd gan Stonewall, Anabledd Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a'r Ganolfan Amgylcheddau Hygyrch. Mae ein staff hefyd wedi gweithio gyda chydweithwyr ym maes cydraddoldeb yn San Steffan ac mewn gweinyddiaethau datganoledig eraill i rannu'r arferion gorau.

**Lleoliadau gwaith**

Yn 2010 cynigiwyd cyfle i 19 mudiad cydraddoldeb yng Nghaerdydd a'r cyffiniau gael secondiad. Cynigiwyd y lleoliad gwaith i bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl LHDT a phobl anabl ac aelod o staff BAWSO (Black Association Of Women Step Out) a lwyddodd i gael y lle. Mae BAWSO yn un o'r darparwyr gwasanaethau sydd wedi'i achredu gan Lywodraeth y Cynulliad i roi cymorth i fenywod duon a lleiafrifoedd ethnig ac i blant sy'n ffoi rhag camdriniaeth. Bu Eunice Chipachini yn gweithio yn y timau Recriwtio a Dysgu a Datblygu fel Swyddog TG Adnoddau Dynol dridiau'r wythnos am gyfnod o chwe mis, gan ganolbwyntio'n bennaf ar roi system TG Adnoddau Dynol ar waith.

Drwy weithio gydag Eunice, bu modd inni elwa o'i phrofiad o ddarparu gwasanaethau o safon mewn sefyllfa amrywiol iawn, gan chwalu ar yr un pryd unrhyw fythau stereotypaidd mai 'dynion gwyn canol-oed Cymraeg eu hiaith' yw holl weithlu'r Cynulliad. Cynigiodd y secondiad gyfle iddi weld hyn drosti ei hun a chyfleu i'w chydweithwyr, i ddefnyddwyr gwasanaethau, i'w theulu a'i ffrindiau mewn cymunedau lleiafrifol, y syniad y dylent feddwl am y Cynulliad fel darpar gyflogwr. Felly mae'r Cynulliad a BAWSO ill dau wedi dysgu llawer o bethau cadarnhaol yn sgil hyn.



"Mae gweithio i'r Cynulliad yn gyfle i gael eich grymuso ac i ddysgu gan y gorau. Mae'n gyfle i gyfrannu a dysgu am arferion gweithio amgen. Rwy'n gobeithio datblygu fy ngyrfa a'm mhroffesiynoldeb a datblygu nifer fawr o sgiliau trosglwyddadwy y galla'i eu defnyddio mewn cyd-destun newydd. O'r lleoliad hwn, rwy'n gobeithio hefyd y galla'i fod yn fwy hyderus yn gweithio ar lefel uwch a dangos i bobl eraill y gallwch chi lwyddo."

Bu'r Cynulliad yn gweithio gyda Gofal hefyd i ddatblygu lleoliad gwaith gyda chymorth i unigolyn ag afiechyd meddwl. Mae Alistair Howells yn gweithio gyda gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau gan gynorthwyo ymchwilwyr ac yn llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n gweithio i'r Cynulliad bob dydd Gwener am gyfanswm o bedair awr yr wythnos dros gyfnod o flwyddyn. Mae Alistair, ei gydweithwyr yn y Cynulliad a'i weithwyr cymorth, i gyd wedi sylwi bod ganddo fwy o hyder a'i fod wedi meithrin mwy o sgiliau yn ystod ei gyfnod ar leoliad gwaith yn y Cynulliad. Rydym yn ymroddedig i gynorthwyo aelodau o'r staff sydd â phroblemau iechyd meddwl ac mae gennym nifer o fecanweithiau cymorth ar waith. Drwy ddod ag Alistair i'r Cynulliad, rydym hefyd yn hyrwyddo gweithlu cefnogol i bobl eraill a chanddynt broblemau iechyd meddwl, y tu mewn i'r Cynulliad a'r tu allan iddo. Mae ein staff hefyd yn dysgu llawer yn sgil y cyfnod y mae Alistair yn ei dreulio yma.

Bydda' i'n cael boddhad mawr o'r lleoliad gwaith. Mae'r gwaith yn ddiddorol iawn. Erbyn hyn, rwy'n teimlo'n fwy hyderus yn cyfarfod â phobl newydd ac rwy'n gallu defnyddio hyn yn gyfle i feithrin fy sgiliau a rhwydweithiau cymdeithasol."

A. Howells

## 06_Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd

### Adeiladau hygyrch

Credwn mai pobl Cymru biau'r Cynulliad a'n hadeiladau. Felly, ceisiwn sicrhau bod yr adeilad ym mhob rhan o ystâd y Cynulliad mor hygyrch ag y bo modd. Bydd ein Tîm Ystadau a Chyfleusterau'n ymgynghori â'r Cynghorydd Iechyd a Diogelwch ac â'r Tîm Cydraddoldeb a Hygyrchedd cyn newid dim. Pan fydd angen, byddwn hefyd yn ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau anabl er mwyn sicrhau bod ein lleoedd yn hygyrch.

Wrth ailddatblygu'r Pierhead, cynullwyd grŵp hygyrchedd i gynghori tîm y prosiect. Gan weithio ochr yn ochr â'n Cynghorydd Hygyrchedd, bu'r grŵp yn cyfrannu at y prosiect o'r cam cynharaf un yn yr ailddatblygu.

### Trafodion hygyrch

Byddwn yn ceisio sicrhau bod busnes y Cynulliad yn hygyrch i'r cyhoedd. Gall pobl ledled Cymru wylio holl drafodion y cyfarfodydd llawn a'r pwyllgorau ar-lein ar Senedd TV. I'r rheini sy'n ymweld â'r Senedd, mae cymorth cyfathrebu ar gael dim ond i rywun wneud cais a rhoi rhybudd rhesymol.

Gall ymwelwyr â'r Senedd wylio'r trafodion a gwrando arnynt yn yr orielau cyhoeddus. Yn ddiweddar, rydym wedi gwella'r sgriniau a ddefnyddir er mwyn sicrhau gwell ansawdd fideo a sain ac er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth am y gweithgareddau a gynhelir yn y Siambr ac yn yr ystafelloedd pwyllgora.

Cyhoeddir trawsgrifau o drafodion y Cynulliad ar-lein ar fformatau hygyrch.

### Gwybodaeth hygyrch

Mae gennym ganllawiau arddull a phecyn gwybodaeth a ddefnyddir gan y staff i sicrhau bod ein cynnyrch ysgrifenedig yn hygyrch. Byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i gynhyrchu rhywfaint o'n gwybodaeth gyhoeddus ar fformatau amgen ac yn darparu dogfennau eraill ar fformatau amgen os bydd rhywun yn gwneud cais am hynny. Bydd pob un o'n cyhoeddiadau'n cynnwys datganiad yn dweud sut y gall pobl wneud cais am ddogfen ar fformat amgen.

Un o brosiectau mawr y Cynulliad yn ystod 2010 a 2011 fydd ymgyrch Pleidleisiwch yn 2011 sy'n annog pobl Cymru i ddefnyddio grym eu pleidlais yn yr etholiad a'r refferenda yn 2011. Fel rhan o'n hymgyrch Pleidleisiwch yn 2011, rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch, gan gynnwys Braille, Iaith Arwyddion Prydain (BSL), testun hawdd ei darllen, sain, fideo a phrint mawr.

**07_Ymgysylltu â'r cyhoedd**

- **Mardi Gras LHDT Cymru Caerdydd**
  Cynhaliwyd Mardi Gras LHDT Cymru Caerdydd yng Nghae Cooper, Caerdydd, ddydd Sadwrn 4 Medi 2010. Aeth tîm digwyddiadau Bws Maes y Cynulliad a'n Rhwydwaith Staff LHDT, OUT-NAW yno, a daeth nifer fwy o bobl i ymweld â'r bws nag erioed. Llenwyd llawer o holiaduron am ein hymwneud â'r gymuned LHDT a chafwyd barn pobl ynglŷn â'r ffordd orau o gyfathrebu â hwy am etholiadau'r Cynulliad a'r refferendwm ynglŷn â phwerau'r Cynulliad yn 2011. Daeth nifer o bobl yno hefyd i sgwrsio am y ffordd orau o gysylltu â'u Haelod Cynulliad a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal, i drafod ein gwaith yn fwy cyffredinol neu i gyfarfod â'r Llywydd, yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas a dreuliodd gryn amser yn cyfarfod ag ymwelwyr ac yn mwynhau'r awyrgylch bywiog ar y cae. Roedd yn wir yn ddiwrnod i ddathlu amrywiaeth yng Nghymru.

- **Digwyddiadau yn y Cynulliad**
  **Gŵyl Undod 28 Mehefin - 4 Gorffennaf**
  Cynhaliwyd yr Ŵyl Undod rhwng dydd Llun 28 Mehefin a dydd Sul 4 Gorffennaf yn y Pierhead. Mae'r ŵyl yn ei thrydedd flwyddyn bellach ac mae'n dathlu celf gan bawb i'w mwynhau gan bawb. Roedd rhai o'r cwmnïau ac artistiaid cenedlaethol a rhyngwladol fu'n cymryd rhan yn yr ŵyl yn arbenigo mewn celfyddydau cynhwysol, celfyddydau anabledd dysgu ac anabledd.
  **Mis Hanes Pobl Dduon - Hydref**
  Mis Hanes Pobl Dduon oedd mis Hydref a chroesawyd arddangosfa yn y Cynulliad gan rwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Cymru i dynnu sylw at y prif bethau sy'n bwysig iddynt.
  **Digwyddiad Menywod mewn Democratiaeth - 25 Tachwedd**
  Yn y ddadl hon, archwiliwyd y cynnydd a wnaed o ran gwella cynrychiolaeth i fenywod ers datganoli, pa rwystrau sy'n bygwth y cynnydd hwnnw a pha gamau newydd y gall fod eu hangen yn awr i sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn adlewyrchu ei ymrwymiad i egwyddor cydraddoldeb i'r rhywiau yn y dyfodol.

- **Digwyddiadau'r haf**
  Roedd rhaglen digwyddiadau'r haf 2010 yn gyfle i'r Cynulliad arddangos ffordd newydd o weithio drwy ddefnyddio bws maes y Cynulliad yn Nigwyddiadau Cenedlaethol Cymru. Bu'n hynod o effeithlon o safbwynt ariannol a hefyd o ran annog ymwelwyr i ymgysylltu â'r Cynulliad. Defnyddiwyd rhaglen ddigwyddiadau'r haf yn

gyfrwng i ddechrau cyfleu ein negeseuon allweddol ynglŷn â phleidleisio yn 2011. Dangosai ein hymchwil y dylem, yn ein rhaglen gweithgarwch, dargedu'n benodol y rheini fyddai'n pleidleisio am y tro cyntaf gan fod y rhain ymhlith y grwpiau lle'r oedd y nifer lleiaf yn pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Ar ôl hyn, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau lle bu'r Llywydd yn cyfarfod ag amrywiaeth o grwpiau a fyddai'n pleidleisio am y tro cyntaf, gan roi cyfle iddynt drafod yr hyn a oedd yn bwysig iddynt.

- **Gwaith maes**
  Bydd ein Tîm Gwaith Maes yn codi ymwybyddiaeth o waith y Cynulliad drwy Gymru. Drwy 2010 maent wedi gweithio gyda nifer o fudiadau sy'n ymwneud â'r maes cydraddoldeb ac wedi cynnal gweithdai a chyflwyniadau'n seiliedig ar Ddeall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Ymgysylltu â'r sefydliad. Dyma rai o'r grwpiau yr ymwelwyd â hwy -
    - Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth
    - Rhwydweithiau'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol
    - Mentora gan Gymheiriaid Shelter Cymru
    - Cyngor Ffoaduriaid Cymru (Plant a Phobl Ifanc, dinasyddion newydd a staff)
    - Mwslimiaid Ifanc Cymru
    - Un Llais Cymru
    - Anabledd Dysgu Cymru
    - Gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth y Tywysog

- **Mis Hanes LHDT**
  I ddathlu mis Hanes LHDT, bu'r Cynulliad yn cydweithio â mudiadau yng Nghaerdydd i noddi sgrinio'r ffilm *Beautiful Thing,* stori am rywun yn troi'n oedolyn ac yn dod allan. Ystâd tai cyngor yn ne Llundain yw cefnlen y stori. Yn y digwyddiad, gofynnwyd i'r sawl a oedd yn bresennol gyfrannu at linell amser ryngweithiol a grëwyd yn arbennig, gan nodi nifer o nodfannau pwysig LHDT. Aeth y llinell amser hon ar daith wedyn o gwmpas nifer o leoliadau cyhoeddus a gwahoddwyd pobl i ychwanegu eu nodfannau arbennig hwy eu hunain.

- **Pleidleisiwch yn 2011 - fformatau hygyrch**
  A'r refferendwm ac etholiadau'r Cynulliad ar y gorwel yn 2011, mae'r Cynulliad wedi gwneud llawer o waith fel rhan o'r ymgyrch 'Pleidleisiwch yn 2011'. Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyrraedd cynifer o bobl ag sy'n bosibl yng Nghymru, a'u hannog i ddefnyddio'u pleidlais yn 2011, mae'r tîm Cyhoeddiadau wedi cyhoeddi gwybodaeth Pleidleisiwch yn 2011 ar sawl fformat megis BSL, Braille, print mawr a thestun hawdd ei ddarllen. Rydym wedi gweithio gyda'r tîm Addysg

hefyd i gyhoeddi taflen sy'n defnyddio iaith briodol i dargedu cynulleidfa iau ac wedi gweithio gyda'r tîm Darlledu ac Amlgyfrwng i sicrhau bod pob fideo'n cyfleu neges gyson.

- **Camu Ymlaen Cymru**
  Nod Cynllun Mentora Camu Ymlaen Cymru, y cyfeiriwyd ato uchod yn yr adran Uchafbwyntiau, oedd rhoi cyfle i unigolion o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, feithrin sgiliau a gwybodaeth er mwyn dod yn llysgenhadon yn y gymuned, gan gynghori a grymuso pobl eraill i ymwneud yn fwy brwd â'r gymdeithas sifil.

- **Ymwybyddiaeth, cyngor ac arweiniad**
  Rydym wedi ymwneud â'r gymuned leol hefyd i gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth ac i ddatblygu polisïau staff. Rydym wedi gweithio gydag eiriolwyr ac arbenigwyr ar draws amrywiaeth o feysydd:
  - I godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb trawsryw a datblygu ein polisi ailbennu rhywedd, gwahoddwyd eiriolwr o a:gender, rhwydwaith cymorth i staff trawsryw, trawsrywedd a rhyngryw y gwasanaeth sifil.
  - I godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ac i hyrwyddo lansio'n polisi cam-drin domestig, gwahoddwyd rhywun sydd wedi goroesi triniaeth o'r fath i esbonio inni pam mae'n bwysig cael gweithle cefnogol.
  - I helpu i chwalu rhai o'r camargraffiadau am Islam, gwahoddwyd cymuned leol i siarad â'n staff.

- **Arolwg ar y wefan**
  Cyhoeddwyd arolwg ar lein yn ddiweddar yn gofyn i'r cyhoedd roi sylwadau am hygyrchedd ein gwefan. Dengys canlyniadau'r arolwg fod llawer o bobl yn ei chael hi'n anodd defnyddio'r wefan a gwybod ymhle mae cael gafael ar wybodaeth.

## Ymgysylltu â Phwyllgorau

Yn ystod 2010, mae ein tîm Maes wedi gweithio'n glos hefyd â Phwyllgorau'r Cynulliad i gynorthwyo grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol drwy Gymru ymwneud yn fwy â'r broses ddemocrataidd. Dyma ambell enghraifft:

- Cwblhaodd y **Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc** ei ymchwiliad i ddarparu mannau diogel i chwarae a chymdeithasu ym mis Tachwedd 2010.

Cynhaliwyd yr ymchwiliad yn sgil y prosiect 'chi sy'n bwysig' a ofynnodd i fwy na 2700 o blant a phobl ifanc am y pethau oedd bwysicaf iddynt hwy. Yn ystod yr ymchwiliad, gofynnwyd i bron 1200 o blant a phobl ifanc eraill am eu profiadau. Ceisiodd y Pwyllgor dystiolaeth gan bobl ifanc anabl, gofalwyr ifanc, plant a oedd yn ceisio lloches, plant a phobl ifanc a oedd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol a phlant ifanc iawn. Rhoddwyd cymorth priodol i unigolion i'w galluogi i roi tystiolaeth. Bu'r Pwyllgor yn siarad â rhai o'r plant a'r bobl ifanc mewn gweithdai ledled Cymru, bu eraill yn rhoi tystiolaeth mewn cyfarfod Pwyllgor ffurfiol yn y Senedd a chyflwynodd eraill eto dystiolaeth fideo neu ar ffurf lluniau i'r Pwyllgor. Lansiwyd adroddiad am ganfyddiadau'r ymchwiliad mewn digwyddiad chwarae yn y Senedd lle rhoddwyd cyfle i blant, rhai ohonynt yn byw mewn tlodi, roi cynnig ar nifer o gyfleoedd chwarae. Cyhoeddwyd crynodeb o'r adroddiad yr un pryd ag y cyhoeddwyd yr adroddiad llawn.

- Mae'r **Pwyllgor Deisebau** wedi parhau i roi cyfle i'r cyhoedd ymgysylltu â'r Cynulliad yn ystod 2010. Mae'r Pwyllgor yn cynnig llwybr uniongyrchol i bobl Cymru ddylanwadu ar waith y Cynulliad. Yn 2010, cyhoeddodd y Pwyllgor wybodaeth ar fformatau hwylus er mwyn hyrwyddo'r drefn ddeisebau i fwy o bobl ledled Cymru

  Yn ystod tymor yr hydref 2010, cynhaliodd y Pwyllgor Deisebau ymchwiliad i'r ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith i bobl ifanc agored i niwed. Deilliodd hyn o sesiwn dystiolaeth, lle clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan bobl ifanc sy'n byw'n annibynnol ac sy'n dilyn rhaglen dysgu seiliedig ar waith. Dyma'r tro cyntaf iddynt roi tystiolaeth i un o Bwyllgorau'r Cynulliad, ac roedd yn gyfle i grŵp o bobl ifanc na fyddent fel rheol yn ymgysylltu â busnes y Cynulliad i ymwneud â'r sefydliad. Yn ystod y sesiwn, cafodd y pwyllgor y cyfle i glywed am eu profiadau ac yn sgil hyn, fe'i sbardunwyd i gynnal ymchwiliad. Canlyniad yr ymchwiliad oedd cyflwyno sawl argymhelliad i'r Llywodraeth er mwyn ceisio gwella'r cymorth i bobl ifanc agored i niwed sy'n dilyn rhaglen dysgu seiliedig ar waith.

  **Deiseb Shelter Cymru**
  Cynhaliwyd gweithdy gan ein Tîm Gwaith Maes a chlercod y Pwyllgor Deisebau ar gyfer Shelter Cymru ar Ddeall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac ymgysylltu â'r sefydliad. Canlyniad hyn oedd bod Shelter Cymru wedi cyflwyno deiseb i Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyflwynwyd y ddeiseb i Gadeirydd y Pwyllgor ar risiau'r Senedd ar 3 Rhagfyr 2009. Llofnodwyd y ddeiseb gan fwy na

350 o bobl ac fe gafodd ei darlleniad cyntaf ar 1 Chwefror 2010. Ar 23 Mawrth 2010, gwahoddwyd cynrychiolwyr o Shelter Cymru i roi tystiolaeth i'r pwyllgor. Daeth dau o gynrychiolwyr Shelter yno ynghyd ag un o'u haddysgwyr - gymheiriaid gan roi cyflwyniad am eu deiseb, ateb rhai o'r cwestiynau dilynol a rhannu rhywfaint o brofiad personol o fod yn ddigartref. Roedd y sesiwn dystiolaeth yn sicr ar ei hennill yn sgil hynny. O ganlyniad, mae un o gynrychiolwyr Shelter Cymru wedi rhoi tystiolaeth i'r ymchwiliad Cynhwysiant Ariannol hefyd. Mae'r Gweinidog wedi ymateb i'r ddeiseb ac wedi gwahodd Shelter Cymru i weithio gyda'i dîm er mwyn cynnwys gadael cartref ar y wefan ABCh.

- Mae gan y **Pwyllgor Cyfle Cyfartal** gronfa ddata eang o ymgyngoreion sy'n cynnwys 62 o fudiadau'r sector gwirfoddol a'r rheini'n cynrychioli buddiannau grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn ogystal â'r 20 cyngor gweithredu gwirfoddol a'r 18 grŵp mynediad lleol. Fel rhan o'i ymchwiliad i hygyrchedd gorsafoedd trenau yng Nghymru, cafodd y Pwyllgor ymateb ysgrifenedig gan Bobl yn Gyntaf Caerffili, Cyngor Pobl Fyddar Cymru, Rhwydwaith Anabledd Castell-nedd Port Talbot, Cymdeithas Anabledd Sir Fynwy, Cynghrair Grwpiau a Chynghreiriau Niwrolegol Sir Drefaldwyn, Grŵp Hygyrchedd Taf Elái, Grŵp Hygyrchedd Sir Benfro, Grŵp ME y Canolbarth a'r Gorllewin, Age Cymru, Anabledd Cymru a nifer fawr o unigolion o blith y cyhoedd a chanddynt broblemau symud ac/neu anabledd. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar hefyd gan Anabledd Cymru, Cymdeithas MS, Cŵn Tywys i'r Deillion a Chyngor Pobl Fyddar Cymru.

- Cynhaliwyd ymchwiliad hefyd gan **y Pwyllgor Cyfle Cyfartal** i effaith polisïau Llywodraeth Cymru ar hygyrchedd gwasanaethau trafnidiaeth i bobl anabl yng Nghymru. Drafftiwyd fersiwn hawdd ei darllen o'i lythyr ymgynghori'n ymwneud â hyn i'w dosbarthu i grwpiau ag anabledd dysgu. Cafodd y Pwyllgor ymateb gan amrywiaeth eang o fudiadau yn y maes anabledd ac anableddau dysgu, a chafwyd tystiolaeth lafar gan Mencap Cymru, Pobl yn Gyntaf Sir Fynwy, Anabledd Dysgu Cymru, Fforwm Anabledd Abertawe, Scope Cymru a Byddar a Dall Cymru.

- Dilynodd y **Pwyllgor Cyfle Cyfartal** hefyd drywydd argymhellion ei adroddiad am hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio drwy wahodd cynrychiolwyr Scope Cymru yn ôl i'r Pwyllgor i ddweud a oeddent yn meddwl bod pethau wedi gwella ers cyhoeddi'r adroddiad.

- Wrth ymgynghori, bydd **pob Pwyllgor** yn cynnwys mudiadau sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifol fel mater o drefn.

## 08_Rhoi Cymorth i Aelodau'r Cynulliad

### Cymorth Cyfreithiol

Mae'r Adran Gyfreithiol yn cynnig cyngor a chymorth cyfreithiol i Bwyllgorau'r Cynulliad ac i Aelodau'r Cynulliad yn ôl y gofyn. Rhoddwyd cyngor yn ystod 2010 i amrywiaeth o Bwyllgorau'r Cynulliad gan gynnwys Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ac i'r Pwyllgorau Deddfwriaeth perthnasol sy'n craffu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Mesurau Arfaethedig ac yn eu hystyried pan fydd eu cynnwys yn berthnasol i faterion cydraddoldeb.

Rhoddwyd cyngor, cymorth a/neu wybodaeth gyfreithiol am amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb er enghraifft cynnwys y Mesur Cydraddoldeb wrth iddo fynd drwy'r camau deddfu yn Senedd y Deyrnas Unedig; am Ddeddf Cydraddoldeb 2010; gwahaniaethu ar sail oedran; gwahaniaethu ar sail anabledd; rôl, dyletswyddau a phwerau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; gwahaniaethu yn erbyn pobl ag HIV; oedran ymddeol a'r gweithdrefnau; protocol tystion agored i niwed; hawliau plant sy'n codi yn sgil Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; hygyrchedd gorsafoedd trenau; a'r Confensiwn ar hawliau pobl ag anableddau.

### Pwyllgorau

Y Gwasanaeth Pwyllgorau sy'n gyfrifol am roi cymorth i Bwyllgorau'r Cynulliad wrth eu gwaith. Bydd Aelodau'r Cynulliad yn dibynnu ar y Gwasanaeth Pwyllgorau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol a chyflwyno rhychwant o dystion a ffynonellau tystiolaeth i'r Pwyllgorau eu hystyried. Mae'r Gwasanaeth Pwyllgorau'n gweithio'n glos gyda Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud ym mhob briff a roddir i'r Pwyllgor, boed hwnnw'n ysgrifenedig neu'n llafar ac yn cael ei gyflwyno gan y Gwasanaeth Pwyllgorau neu gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

Mae'r Gwasanaeth Pwyllgorau wedi gweithio'n glos gyda chydweithwyr ym mhob rhan o'r Cynulliad i gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad wrth eu gwaith. Er enghraifft, mae wedi gweithio gyda Chysylltiadau Allanol, Diogelwch, Iechyd a Diogelwch, y Wasg, Cyhoeddiadau, Cyfieithu, Addysg a'r Uned Gopïo wrth gynnal y digwyddiad lansio'r adroddiad chwarae a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2010, y bu 80 o blant a phobl ifanc yn bresennol ynddo.

Hefyd, bydd y briff a roddwyd gan y Gwasanaeth Pwyllgorau i gadeirydd pwyllgor yn sôn am anghenion penodol tystion gan argymell ffyrdd o

gynorthwyo unrhyw dystion y gwelir eu bod yn agored i niwed. Gallai'r cymorth gynnwys cynnal sesiwn dystiolaeth mewn ffordd lai ffurfiol, gofyn cwestiynau mwy agored, caniatáu i'r tyst gael egwyl fach yn ystod yr holi a chaniatáu i dystion ddod â rhywun gyda hwy at fwrdd y pwyllgor i'w cynorthwyo yn ystod y sesiwn dystiolaeth. Defnyddiwyd pob un o'r dulliau hyn yn ystod cyfarfodydd Pwyllgorau yn 2010.

**Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau**

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd, annibynnol ar Lywodraeth Cymru, i bwyllgorau'r Cynulliad ac i Aelodau unigol. Bydd staff y gwasanaeth ymchwil yn cydweithio â'r Swyddfa Ddeddfwriaeth, y Gwasanaeth Pwyllgorau ac â chydweithwyr Cysylltiadau Allanol i gynyddu'r cyfleoedd i ymgynghori â grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol fel rhan o waith y Cynulliad.

Hefyd, bydd Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n gweithio'n glos gyda'r Gwasanaeth Pwyllgorau i sicrhau bod unrhyw drywydd holi a awgrymir i Aelodau Pwyllgorau yn cadw cydraddoldeb mewn cof ac i gadw mewn cof hefyd bod angen cynorthwyo grwpiau lleiafrifol.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, darparwyd mwy o gyfleoedd i ymchwilwyr sy'n gweithio mewn amrywiol feysydd polisi ymwneud â'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Mae hyn wedi rhoi cyfle i fwy o ymchwilwyr ymwneud â materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac i feithrin mwy o ymwybyddiaeth o'r ystyriaethau yn eu gwahanol feysydd pwnc e.e. trafnidiaeth. Mae hyn wedi bod o gymorth i brif-ffrydio cydraddoldeb drwy'r gwasanaeth.

**Aelodau'r Cynulliad a Deddf Cydraddoldeb 2010**

Bydd Aelodau'r Cynulliad yn cyflogi staff cymorth ac yn darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd drwy eu swyddfeydd etholaeth. Yn hynny o beth, mae ganddynt gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae ein timau Adnoddau Dynol, Cymorth Busnes i Aelodau a Chydraddoldeb yn datblygu amrywiaeth o wybodaeth i Aelodau'r Cynulliad ynglŷn â'u dyletswyddau cyfreithiol. Darperir gwybodaeth ar dudalennau mewnrwyd yr Aelodau ac fe'u diweddarir wrth i'r ddeddfwriaeth newid.

**Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng i Aelodau Anabl o'r Cynulliad a'u Staff**

Mae Cynlluniau Personol ar gael i Aelodau'r Cynulliad ac i'w staff os oes eu hangen.

## 09_Blaenoriaethau ar gyfer 2011

### Y Ddeddf Cydraddoldeb - paratoi ar gyfer dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a hyfforddi staff

Gyda dyfodiad Deddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn ei sgil, byddwn yn treulio cryn amser ym misoedd cyntaf 2011 yn canolbwyntio ar y gwaith paratoi ar gyfer y ddyletswydd a'r ffordd orau o baratoi staff ar gyfer ei chyflawni. Mae ein Tîm Cydraddoldeb yn gweithio gyda'i gydweithwyr Adnoddau Dynol i ddatblygu strategaeth hyfforddi i sicrhau bod ein staff i gyd a'n Haelodau yn y Cynulliad yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldeb o dan y Ddeddf a'r ddyletswydd yn y sector cyhoeddus.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb newydd, ac yntau'n gorff cyhoeddus, bydd gofynion cyffredinol a phenodol yn berthnasol i'r Cynulliad. Bydd y rhain yn dweud wrthym sut mae'n rhaid inni hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu annheg a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau o bobl. Mae'r Cynulliad wedi'i rwymo gan ofynion dyletswydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ond os byddwn yn meddwl bod hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, byddwn yn gweithredu o fewn ysbryd gofynion Llywodraeth Cymru, er mwyn bod yn gyson â gweddill y sector cyhoeddus yng Nghymru.

### Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

Er mwyn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael sylw ym mhopeth a wnawn, byddwn yn datblygu ymhellach ein system i Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb. Byddwn yn diwygio'r ffurflen a ddefnyddiwn er mwyn ei gwneud yn fwy effeithlon ac yn haws ei defnyddio. Byddwn hefyd yn hyfforddi'r staff er mwyn iddynt wybod sut mae cynnal asesiadau effaith a byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau.

### Gwybodaeth i Aelodau'r Cynulliad yn y Pedwerydd Cynulliad

Mae'r Tîm Cydraddoldeb yn gweithio gyda'u cydweithwyr i ddatblygu amrywiaeth o wybodaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb i ddarpar Aelodau'r Cynulliad. Bydd yr wybodaeth yn ymwneud â'u rôl fel cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau.

### Adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb a chyhoeddi Cynllun newydd erbyn mis Ebrill 2012

Caiff ein Cynllun Cydraddoldeb presennol ei ymestyn tan fis Ebrill 2012 pan fyddwn yn cyhoeddi ein Cynllun newydd. Byddwn yn gweithio gyda'n

cydweithwyr a chyda defnyddwyr gwasanaethau i sicrhau bod ein Cynllun newydd yn addas ar gyfer ein hanghenion.

**Gwella data staff**

Sylweddolwn fod angen cryfhau ein dulliau o gasglu data monitro staff. Mae ein Tîm Cydraddoldeb a Thîm Gweithrediadau Adnoddau Dynol wrthi'n gweithio i ganfod ateb i sicrhau bod ein gwybodaeth mor gyflawn ag y bo modd ar gyfer adroddiadau'r dyfodol.

**Gwefan hygyrch**

Byddwn yn datblygu gwefan newydd a gaiff ei phrofi ar ddefnyddwyr er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd ei defnyddio ac yn hygyrch.

**Braille**

Byddwn yn gweithio gyda'n cysylltiadau allanol er mwyn sicrhau bod yr arwyddion Braille yn ein hystâd i gyd yn gywir ac yn hygyrch.

**Polisi amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed**

Bydd y sefydliad hwn yn ymwneud llawer â phlant, â phobl ifanc ac ag oedolion agored i niwed. Felly, teimlwn ei bod yn briodol inni ddatblygu polisi i sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael eu hamddiffyn pan fyddwn yn gweithio gyda hwy.

## 10_Geirfa

**Aelodau'r Cynulliad** - gwleidyddion sy'n cael eu hethol i gynrychioli gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Mae 60 Aelod Cynulliad Etholedig yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Amrywiaeth** - yn ymwneud â dathlu gwahaniaeth. Wrth drin pawb yn yr un ffordd, mae'n bosibl na lwyddir i gydnabod y gwahaniaethau rhwng pobl ac fe all hynny achosi annhegwch a diffyg cydraddoldeb.

**Cydraddoldeb** - yn ymwneud â chwalu'r rhwystrau sy'n atal grwpiau penodol o bobl rhag cael cyfle ar hyn o bryd.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru** Mae 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru'n ffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Maent yn cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli hwy a'u cymunedau, i greu cyfreithiau i Gymru ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gwneud ei gwaith yn iawn.

**Pierhead** - adeilad hanesyddol ym Mae Caerdydd y bydd y Cynulliad yn ei ddefnyddio'n ganolfan ar gyfer addysg a digwyddiadau.

**Senedd** - Prif adeilad cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dyma lle y bydd Aelodau'r Cynulliad yn cyfarfod i greu cyfreithiau ac i graffu ar lywodraeth Cymru.

**Siambr** - y siambr lle cynhelir dadleuon Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Atodiad A: Y cynnydd gydag amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb a'r Cynllun Gweithredu**

**Cynllun Gweithredu - Cynllunio Corfforaethol a Rheoli**

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| A1 | Bod cynllun Cydraddoldeb effeithiol ar waith sy'n cael ei fonitro a bod adroddiad yn cael ei baratoi'n rheolaidd am y cynnydd a wneir wrth gyflawni ein hamcanion ym maes cydraddoldeb |

Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb a'n Cynllun Gweithredu ym mis Tachwedd 2008. Er bod y Cynllun i fod i ddod i ben ym mis Tachwedd 2011, fe'i hestynnir tan fis Ebrill 2012 pan gyhoeddir ein Cynllun newydd. Cyhoeddwyd ein hadroddiad diweddaru cyntaf ym mis Rhagfyr 2009. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar lein a chreffir arno gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| A2 | Bod Cynllun a Chynllun Gweithredu ar gael a'r rheini'n cael eu hadolygu'n allanol bob tair blynedd |

Amcan Blwyddyn 3 Dim byd i sôn amdano.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| A3 | Ystyried amcanion cydraddoldeb ym mhrosesau cynllunio gwaith meysydd gwasanaeth |

Amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb a'r Cynllun Gweithredu wedi'u cynnwys yng nghynlluniau gwasanaeth pob Maes Gwasanaeth.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| A4 | Asesir yr effaith ar gydraddoldeb yn sgil polisïau newydd a pholisïau arfaethedig a hyfforddir staff i gyflawni'r broses hon. |

Rydym wrthi'n datblygu'n pecyn asesu'r effaith ar gydraddoldeb a gaiff ei ledaenu drwy'r sefydliad yn 2011 ynghyd â hyfforddiant perthnasol i'r staff

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| A5 | Bod perthynas waith fewnol effeithiol/rhwydweithiau ar waith a'r rheini'n sail i'n gwaith ar gydraddoldeb |

Byddwn yn ymgynghori â'r Undebau Llafur ac â'n Rhwydwaith Staff LHDT a'n Rhwydwaith Staff Anabl wrth ddatblygu polisïau corfforaethol sy'n effeithio ar staff, megis polisi Urddas yn y Gwaith, Polisi Disgyblaeth a Pholisi Cwynion y Cynulliad. Mae gennym hefyd Grŵp Llywio Cydraddoldeb yn cynnwys Arweinwyr Cydraddoldeb sy'n cynrychioli pob rhan o'r sefydliad ac mae'r grŵp hwn hefyd yn cyfrannu at ddatblygiadau. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael i staff ar y fewnrwyd.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| A6 | Bod perthynas waith allanol effeithiol/rhwydweithiau ar waith a'r rheini'n sail i'n gwaith cydraddoldeb |

Rydym wedi sefydlu grŵp o gysylltiadau allanol i gynnig cyngor am faterion sy'n ymwneud â hygyrchedd i bobl anabl. Byddwn hefyd yn gweithio gyda sefydliadau cynrychioladol sy'n darparu arweiniad pan fydd angen. Buom yn gweithio'n glos gydag Uned Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnal ein Cynllun Mentora, Camu Ymlaen Cymru a thrwy hynny, llwyddwyd i ddatblygu cysylltiadau ag unigolion a mudiadau yn y maes cydraddoldeb. Bydd ein Tîm Cydraddoldeb a Hygyrchedd yn cysylltu hefyd â phobl yn Llywodraeth Cymru, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru a mudiadau cynrychioladol ac unigolion. Er enghraifft, rydym wedi gweithio gydag unigolion wrth ddatblygu ein polisïau i gefnogi staff sydd wrthi'n ailbennu eu rhywedd neu'n wynebu cam-drin domestig.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| A7 | Bod staff ac Aelodau'r Cynulliad yn gallu cael gafael ar gyngor prydlon a chywir am gydraddoldeb, hygyrchedd a hawliau dynol. |

Mae'r Tîm Cydraddoldeb a Hygyrchedd yn adnodd arbennig sydd ar gael i bob aelod o'r staff ac i Aelodau'r Cynulliad. Datblygwyd ein safle mewnrwyd yn 2010 i gynnwys rhagor o wybodaeth a chyngor i staff ac i Aelodau'r Cynulliad Byddwn yn cynnal nifer sylweddol o weithgareddau ymwybyddiaeth i hyrwyddo cydraddoldeb a gwaith y Tîm.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| A8 | Cynyddu ymwybyddiaeth staff ac Aelodau'r Cynulliad o gydraddoldeb, hygyrchedd a hawliau dynol. |

Mae gwaith codi ymwybyddiaeth wedi bod ar y gweill drwy'r flwyddyn. Cyhoeddwyd erthyglau yn ein cylchgrawn staff am amrywiaeth o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, a hynny ar draws y meysydd cydraddoldeb. Ymhlith rhai o'r pynciau yr ymdriniwyd â hwy yn ystod 2010 roedd Diwrnod Rhyngwladol Menywod, Mis Hanes LHDT, Mis Hanes Pobl Dduon, Diwali, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, Ramadan, Mela amlddiwylliannol Caerdydd a chyflwyno Deddf Cydraddoldeb 2010.

Datblygwyd ffeithlenni gwybodaeth i Aelodau'r Cynulliad yn disgrifio'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a ledaenir yn 2011.

Darperir hyfforddiant cydraddoldeb i aelodau newydd o'r staff fel rhan o'r Hyfforddiant Cynefino Corfforaethol. At hynny, rydym yn parhau i ddarparu hyfforddiant Gwasanaeth Cwsmeriaid, hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod a hyfforddiant Cydraddoldeb i Bobl Anabl. Bydd digwyddiadau a chynadleddau a drefnir gan y Tîm Cydraddoldeb yn cynnig rhagor o gyfle i'r staff fod yn rhan o bethau a chael rhagor o wybodaeth.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| A9 | Ymgysylltu mwy ag aelodau cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gyda'r nod o hyrwyddo ac ehangu'r ymgysylltu â democratiaeth a chymryd rhan ynddi. |

Cysylltwyd â nifer o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol drwy gyfrwng Cynllun Mentora Camu Ymlaen Cymru. Nod y Cynllun oedd cynyddu ymwybyddiaeth y cyfranogwyr a'u cymunedau o ddemocratiaeth a dinasyddion yn ymgysylltu â hi yng Nghymru. Datblygwyd Grŵp Llywio o fudiadau cynrychioladol i gynorthwyo i gynllunio'r cynllun. Bu tri deg a phedwar o unigolion o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cymryd rhan yn y cynllun.

Mae ein timau Gwaith maes a Chydraddoldeb a Hygyrchedd wedi cysylltu â nifer o gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ystod 2009 a byddant yn parhau i gynyddu eu cysylltiadau â'r gymuned yn ystod 2010.

**Cynllun Gweithredu - Adnoddau Dynol**

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| B1 | Bod gwybodaeth am ein swyddi gweigion yn cyrraedd y grwpiau lleol hynny sy'n cynrychioli lleiafrifoedd ethnig a'u bod yn denu nifer o geisiadau gan y grwpiau hyn sy'n adlewyrchu'r boblogaeth yn gyffredinol gyda'r nod o ymestyn hyn fesul tipyn i'r meysydd cydraddoldeb eraill. |

Rydym wedi hysbysu gwahanol fudiadau am swyddi gweigion yn y Cynulliad. Hysbysebwyd cyfle am secondiad a oedd yn rhan o'n strategaeth gwaith maes o fewn BAWSO, MEWN Cymru, Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Dwyrain Cymru, Cydraddoldeb Hiliol yn Gyntaf, Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, y Comisiwn Cydraddoldeb ac Adnoddau Dynol, AWETU, Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Cymru, Stonewall Cymru, Rhwydwaith Amgylcheddol Pobl Dduon, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Alltudion ar Waith, Anabledd Cymru, Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru, Lleisiau o blaid Newid Cymru, Fyne Times, Cymru Ddiogelach, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Grŵp Amrywiaeth. Mae swyddi wedi cael eu hysbysebu hefyd yn y ganolfan gwaith ac mae ganddi hithau gysylltiadau ag asiantaethau eraill sy'n cynrychioli grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Rydym hefyd wedi ehangu'r hysbysebu i ddenu cynulleidfaoedd priodol. Rydym wedi cyhoeddi hysbysebion generig yn y Grŵp Amrywiaeth, Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, canllawiau 'Cychwyn Arni' Stonewall ac Equality Britain i hyrwyddo'r Cynulliad fel corff sy'n ymroddedig i bob agwedd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn ffeiriau gyrfaoedd a diwrnodau cwrdd i ffwrdd i hyrwyddo'r Cynulliad fel darpar gyflogwr.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| B2 | Bod staff, Aelodau'r Cynulliad a staff Aelodau'r Cynulliad yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau ym maes cydraddoldeb/hawliau dynol a'r meysydd cydraddoldeb a ganlyn: oedran, anabledd, rhyw/hunaniaeth o ran rhywedd/hil, crefydd/credo a chyfeiriadedd rhywiol. Hefyd, eu bod yn deall goblygiadau'r Cynllun Cydraddoldeb a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus. |

Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu wedi gweithio gyda'r Tîm Cydraddoldeb a Hygyrchedd i ddatblygu rhaglen hyfforddi i staff y Cynulliad, Aelodau a'u staff hwythau. Mae hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Diwylliant wedi'i ledaenu i holl staff y rheng flaen ac wedi'i gynnig i bob aelod arall o'r staff. Ar ôl dadansoddi anghenion hyfforddi, cwblheir strategaeth hyfforddiant cydraddoldeb yn 2011. Yn gefn i hyn, mae cyllideb wedi'i neilltuo yn y gyllideb hyfforddiant corfforaethol yn 2010/11 i fynd i'r afael yn benodol ag anghenion hyfforddi staff y Cynulliad ym maes Cydraddoldeb.

I roi hwb cychwynnol i'r strategaeth hyfforddiant Cydraddoldeb, mae'r timau Cydraddoldeb, Cyfreithiol ac Adnoddau Dynol wedi cael eu hyfforddi'n drwyadl yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Darparwyd yr hyfforddiant gan dîm o Fargyfreithwyr o gwmni cyfreithwyr Civitas.

Cynigiwyd hyfforddiant am gydraddoldeb a hawliau dynol i bob Aelod ac i'w staff cymorth. Gall Aelodau a'u staff cymorth fanteisio hefyd ar yr hyfforddiant cynefino a roddir i bob aelod newydd o'r staff yn y Cynulliad. At hynny, bydd cyllideb hyfforddi Aelodau'n cynyddu'n sylweddol yn 2011/12 a bydd ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb yn rhan o hyfforddiant cynefino Aelodau'r Cynulliad (Mai 2011) a'r tu hwnt. Datblygwyd ffeithlenni gwybodaeth i alluogi Aelodau a'u staff i ddarparu gwasanaethau ar gyfer eu hetholwyr ac i aelodau'r cyhoedd. Mae'r ffeithlenni hyn yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i gydraddoldeb, hawliau dynol a gwasanaeth cwsmeriaid ac fe'u cyhoeddir yn 2010.

Yn ystod 2010, mae Tîm Cydraddoldeb a Hygyrchedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi dechrau lledaenu nodau ac amcanion y Cynllun Cydraddoldeb i bob maes Gwasanaeth drwy'r sefydliad. Drwy rannu'r gwerthoedd craidd sy'n greiddiol i'r Cynllun, rydym yn sicrhau bod ein staff i gyd yn sylweddoli ein bod yn gyflogwr cyfle cyfartal.

Bydd adran Cydraddoldeb a Hygyrchedd y fewnrwyd yn cael ei datblygu eto yn 2011 i gynnig adnodd gwerthfawr i staff ac Aelodau.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| B3 | Rhoddir sylw difrifol i fwlio ac aflonyddu ac addysgir staff am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cydweithio â'r Undebau Llafur, â'r rhwydwaith staff LHDT ac â'r rhwydwaith staff anabl gan gynhyrchu cyfres newydd o bolisïau'n ymwneud ag Urddas yn y Gwaith, Disgyblaeth a Chwynion ac mae wedi darparu sesiynau ymwybyddiaeth i weithwyr am y polisïau allweddol hyn. Mae'r Cynulliad wedi cael cydnabyddiaeth allanol i'w Bolisi Urddas yn y Gwaith ac fe'i gwahoddwyd i roi cyflwyniad am y polisi i Gynhadledd Ranbarthol Stonewall.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| B4 | Bod graddfeydd yn cael eu monitro gan roi sylw i unrhyw wahaniaethau rhwng y rhywiau. |

Cynhaliwyd Arolwg o Gyflogau Cyfartal ar sail cyflogau a delid ar 31 Rhagfyr 2010 (Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Atodiad C), gan nodi ymhle y gallai fod gwahaniaethau rhwng y rhywiau. Yn sgil y setliad Cyflogau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2010, ac aildrefnu'r gwasanaeth Diogelwch i sefydlu Shifft Nos barhaol yn hytrach na phatrwm shifftiau cylchog, mae'r Cynulliad wedi dileu'r sefyllfa lle'r oedd cyflogau dynion ar y blaen ar raddfa'r Tîm Cymorth. Fodd bynnag, oherwydd bod cynifer o ddynion wedi'u cyflogi yn y gwasanaeth Diogelwch ar raddfa'r Tîm Cymorth, drwyddi draw, mae cyflogau menywod ar y blaen.

Canolrif cyflogau sylfaenol a chanolrif cyfanswm y cyflogau sy'n cyfateb i amser llawn ar gyfer dynion M-2 yw 5.0 a 7.1 yn y drefn honno'n is na'r cyflogau ar gyfer menywod - ac mae modd esbonio hyn i raddau helaeth am fod cynifer o staff benywaidd M-2 yn cael Lwfans Recriwtio a Chadw'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi.

Rydym hefyd wedi cymharu cyflogau rhan-amser â chyflogau amser llawn cyfatebol. Mae hyn wedi dangos bod gweithwyr benyw rhan-amser ennill cyflogau cyfateb i amser llawn uwch nag y mae gweithwyr gwryw amser llawn.

| | Canlyniad/Amcan Gofynnol |
|---|---|
| B5 | Bod polisïau cyflogaeth yn rhoi sylw i ofynion newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol. |

Mae gennym raglen dreigl i adolygu polisïau a bydd pob polisi'n cael ei asesu i fesur ei effaith. Rydym wedi gweithio gydag Ochr yr Undebau Llafur a chyda'n Rhwydwaith Staff LHDT a'n Rhwydwaith Staff Anabl a byddwn yn cryfhau'r broses hon wrth sefydlu Rhwydwaith Staff i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

| | Canlyniad/Amcan Gofynnol |
|---|---|
| B6 | Bod ystyriaethau ynglŷn â chydraddoldeb yn rhan o'n prosesau recriwtio (gan gynnwys gweithio hyblyg, rhannu swyddi a threfniadau gweithio gartref) |

Bydd pob swydd ar gael i staff sy'n gweithio oriau hyblyg, oni fydd anghenion y busnes yn pennu'n wahanol. Mae angen cyflwyno dadl fusnes i gyfiawnhau peidio â chaniatáu gweithio hyblyg mewn swydd. Ceisiwyd cyngor cyfreithiol i sicrhau bod modd cyfiawnhau'r anghenion busnes a'u bod yn gyson â'r ddeddfwriaeth.

| | Canlyniad/Amcan Gofynnol |
|---|---|
| B7 | Bod gwell data ar gael am gydraddoldeb staff. Bod data'n cael eu casglu, eu cofnodi ac ar gael yn rhwydd yn sgil polisïau monitro cyflogaeth |

Gan ddefnyddio adborth gan weithwyr a'r Rhwydwaith Staff LHDT a'r Rhwydwaith Staff Anabl (a'r Rhwydwaith Staff Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig sydd ar y gweill), mae sgrin data personol Snowdrop U-Access wrthi'n cael ei hailddylunio i annog gwell cofnodi. Cyflwynwyd system newydd Snowdrop, system cofnodi data, ym mis Tachwedd 2009 a phwysir ar y staff i lenwi'r adrannau perthnasol. Anfonir e-bost os nad yw'r wybodaeth wedi'i llenwi neu os ydynt yn dweud ei bod yn well ganddynt beidio â dweud.

| | Canlyniad/Amcan Gofynnol |
|---|---|
| B8 | Bod egwyddor cydraddoldeb yn elfen hanfodol o'n strategaeth cyflogau sydd ar y gweill |

Cynhaliwyd Arolwg Cyflogau Cyfartal yn 2009 a oedd yn sail i ddatblygu'n setliad cyflog yn 2010. Cynhaliwyd graddfeydd cyflogau byrion er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb yn elfen hanfodol o'r strategaeth.

Cynhaliwyd Arolwg Cyflogau Cyfartal dilynol ar sail y cyflogau a delid ar 31 Rhagfyr 2010. Dangosodd hyn mai dim ond un raddfa sydd yn awr (M-2) lle mae gwahaniaeth amlwg rhwng canolrif cyflog gweithwyr sy'n ddynion a gweithwyr sy'n ferched. Y rheswm dros hyn oedd bod cynifer o fenywod yn gweithio yn y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi sy'n cael Lwfans Recriwtio a Chadw i adlewyrchu'r sgiliau y mae gofyn amdanynt yn y swydd honno sydd wedi codi'r cyflog canolrif ar gyfer y raddfa.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| B9 | Bod gweithwyr grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn teimlo'u bod yn cael cymorth ac yn cyfrannu at ddatblygu polisïau a allai effeithio arnynt (rhwydweithiau staff) |

Ar hyn o bryd, mae gennym ddau rwydwaith cymorth i staff, ac mae trydydd rhwydwaith, Rhwydwaith i Staff Duon a Lleiafrifoedd Ethnig, wrthi'n cael ei ddatblygu. Ymgynghorwyd â'n Rhwydwaith Staff LHDT a'n Rhwydwaith Staff Anabl ochr yn ochr ag ymgynghori ag Undebau Llafur wrth ddatblygu polisïau newydd a'u hadolygu. Yn 2010, cyfrannodd rhwydweithiau'r staff at ddatblygu'r Polisi Rheoli Presenoldeb.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| B10 | Bod ein trefniadau cynefino diwygiedig yn rhoi pwyslais priodol ar ein hymrwymiadau/dyletswyddau ym maes cyfrifoldeb a bod y trefniadau hyn yn cael eu rhannu â staff Aelodau'r Cynulliad fel sy'n briodol. |

Darperir hyfforddiant cynefino am faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol i holl aelodau newydd staff y Cynulliad ac fe'i cynigir hefyd i staff cymorth yr Aelodau. Mae'r hyfforddiant yn ymwneud â pharch at gydweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau eraill a'u trin ag urddas, a thrafodir materion sy'n ymwneud â phob un o'r meysydd cydraddoldeb.

Yn y Pedwerydd Cynulliad, bydd elfen Cydraddoldeb y rhaglen cynefino'n cael ei gwella a bydd yn awr yn cynnwys gwybodaeth am Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

| | Canlyniad/Amcan Gofynnol |
|---|---|
| B11 | Cyflwyno cynllun peilot sy'n hyrwyddo aseiniadau gwaith i leiafrifoedd ethnig a'i ledaenu i feysydd eraill ar ôl cynnal adolygiad o'r cynllun peilot os mai dyna sydd orau. |

I gynorthwyo staff Duon a Lleiafrifoedd Ethnig, staff LHDT a staff anabl i gamu ymlaen, cynigiodd tîm Adnoddau Dynol y Cynulliad secondiad i rywun o'r tu allan i'r Cynulliad gan dargedu'r cymunedau hyn rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2010. Hysbysebwyd y cyfle i gael secondiad i 19 o fudiadau cydraddoldeb yng Nghaerdydd a'r cyffiniau (y cyfeiriwyd atynt yn B1) a'r ymgeisydd llwyddiannus oedd un o weithwyr BAWSO (Black Association Of Women Step Out Ltd). Roedd y swydd yn golygu gweithio yn y timau Recriwtio a Dysgu a Datblygu fel Swyddog TG Adnoddau Dynol dridiau'r wythnos am gyfnod o chwe mis, gan ganolbwyntio'n bennaf ar roi'r system TG Adnoddau Dynol, Snowdrop, ar waith. Bu'r cyfle hwn yn fodd i'r Cynulliad elwa o'u profiad o ddarparu gwasanaethau o safon mewn sefyllfa amrywiol iawn, gan chwalu ar yr un pryd unrhyw fythau ystrydebol mai 'dynion gwyn canol-oed Cymraeg eu hiaith' yw holl weithlu'r Cynulliad. Cynigiodd y secondiad gyfle i'r sawl a secondiwyd weld hyn drosti ei hun a chyfleu i'w chydweithwyr, i ddefnyddwyr gwasanaethau, i'w theulu a'i ffrindiau mewn cymunedau lleiafrifol, y syniad y dylent feddwl am y Cynulliad fel darpar gyflogwr. Felly, dysgodd y Cynulliad a BAWSO ill dau lawer o bethau cadarnhaol yn sgil hyn.

Rydym hefyd yn cynnal cynllun lleoliad gwaith â chymorth ar y cyd â Gofal i alluogi rhywun â phroblem iechyd meddwl i gael profiad o weithio i'r Cynulliad.

**Cynllun Gweithredu - Cysylltiadau Allanol**

| | Canlyniad/Amcan Gofynnol |
|---|---|
| C1 | Bod gwybodaeth am y Cynulliad a'i waith ar gael i bawb. Bod ymwybyddiaeth yn cael ei chodi am waith y Cynulliad ar draws pob sector yn y gymdeithas |

Rydym wedi datblygu strategaeth addysg sy'n ystyried cydraddoldeb. Mae'r Cynulliad yn cynnig rhaglenni sydd wedi'u teilwra a gwasanaeth maes addysg ar gyfer ysgolion anghenion arbennig. Ym mis Ionawr 2010, trefnwyd ein diwrnod hyfforddi cyntaf i athrawon anghenion arbennig, a dilynwyd hwnnw gyda gweithdy i athrawon ym mis Mehefin 2010 a drefnwyd i'r un grŵp o athrawon.

Paratoir dogfennau sain, fideo a Word yn awr ar gyfer pob datganiad i'r wasg, gan wneud yr wybodaeth yn fwy hygyrch i drawstoriad o wahanol grwpiau.

Mae ein Tîm Maes wrthi'n gweithio'n frwd gyda grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ledled Cymru ac roedd taith y Llywydd yn targedu'r grwpiau hyn.

Dros y flwyddyn diwethaf, mae ein Tîm maes wedi gweithio gyda mudiadau a grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ledled Cymru megis Shelter Cymru, Ymddiriedolaeth y Tywysog, Fairbridge De Cymru, Mwslimiaid Ifanc Cymru, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Un Llais Cymru a Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth, i ddarparu sesiynau am Ddeall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Ymgysylltu â'r sefydliad ac i annog pobl i gymryd rhan frwd yn y broses ddemocrataidd.

Mae'r holl wybodaeth am y Cynulliad ar gael ar fformatau amgen dim ond i rywun ofyn. Rydym wedi datblygu Pecyn Gwybodaeth Hygyrch i sicrhau bod yr wybodaeth y byddwn yn ei chyhoeddi'n hygyrch i'r cyhoedd. Mae'r pecyn i'w weld ochr yn ochr â chanllawiau arddull y Cynulliad ar y fewnrwyd, ac mae'n cynnig arweiniad cynhwysfawr ynglŷn â darparu gwybodaeth sy'n glir, yn gyson ac yn hygyrch.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi nifer o gyhoeddiadau allweddol ar wahanol fformatau eleni. A'r refferendwm ac etholiadau'r Cynulliad ar y gorwel yn 2011, rydym wedi gwneud llawer o waith fel rhan o'r ymgyrch 'Pleidleisiwch yn 2011'. Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyrraedd cynifer o bobl ag sy'n bosibl yng Nghymru, a'u hannog i ddefnyddio'u pleidlais yn 2011, rydym wedi cynhyrchu gwybodaeth Pleidleisiwch yn 2011 mewn Iaith Arwyddion Prydain, Braille, print mawr a thestun hawdd ei ddarllen. Rydym wedi cyhoeddi taflen sy'n defnyddio iaith briodol i dargedu cynulleidfa iau. At hynny, rydym wedi bod yn gweithio ar gynhyrchu fersiynau amlieithog o 'Crwydro'r Senedd' a 'Crwydro'r Pierhead' a fydd ar gael yn 2011.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| C2 | Bod cyhoeddiadau'r cynulliad sy'n cynnwys delweddau'n cynrychioli cymdeithas amrywiol Cymru |

Cedwir cronfa ddata o ddelweddau gan y Tîm Cysylltiadau Allanol. Mae delweddau newydd wedi'u datblygu a fydd yn gyson â brand newydd y Cynulliad sy'n cynnwys delweddau sy'n adlewyrchu amrywiaeth. Un enghraifft yw Adroddiad Blynyddol y Cynulliad a'r Datganiad Cyfrifon.

Eleni, lansiwyd hefyd gyfres o adnoddau wedi'u hanelu'n bennaf at ddysgu pobl ifanc am waith y Cynulliad. Mae'r adnoddau hyn wedi'u seilio ar lun o dirwedd Cymru sy'n dangos yr 20 maes y gall y Cynulliad wneud cyfreithiau ynddynt. Mae'r ddelwedd yn dangos nodfannau enwog Cymru a golygfeydd cyfarwydd yn ogystal â nifer o gymeriadau sy'n adlewyrchu cymdeithas amrywiol Cymru.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| C3 | Anfonir datganiadau i'r wasg/cyfryngau at fudiadau sy'n cynnwys sefydliadau/ grwpiau/cynrychioli a all fod yn cynrychioli buddiannau cydraddoldeb. |

Rydym wedi datblygu rhestr o gysylltiadau mewn sefydliadau arbenigol ac unigolion ledled Cymru sy'n cael datganiadau i'r wasg gan ein tîm Cysylltiadau â'r Cyfryngau pan ystyrir fod y mater yn berthnasol iddynt. Er enghraifft, pan gyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol adroddiad am wasanaethau i ddefnyddwyr cadair olwyn yng Nghymru, anfonwyd y stori hefyd at grwpiau megis Anabledd Cymru a'r Gymdeithas MS, yn ogystal ag at y wasg arferol. Enghraifft arall o'r Cynulliad yn ymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau cydraddoldeb oedd lansio adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ddiweddar am hygyrchedd gorsafoedd trenau yng Nghymru. Er mwyn cael mwy o gyhoeddusrwydd i'r adroddiad, bu'r tîm Cysylltiadau â'r Cyfryngau'n gweithio'n glos â'r Gymdeithas MS i gael gafael ar astudiaethau achos gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a fyddai'n siarad â'r cyfryngau i gyfleu prif negeseuon yr adroddiad. Bu hyn yn llwyddiant mawr a rhoddwyd sylw i'r stori gan bob un o'r prif gyrff newyddion yng Nghymru. At hynny, mae'r tîm Cysylltiadau â'r Cyfryngau wedi gwneud mwy o waith amlgyfrwng a bydd yn cynhyrchu cynnwys sain a fideo'n rheolaidd. Drwy hynny, mae'n darparu gwybodaeth ar fformatau gwahanol i'r datganiad cyfryngau safonol.

| | Canlyniad/Amcan Gofynnol |
|---|---|
| C4 | Bod pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn gallu ymweld â'r Senedd a'n hadeiladau eraill a'u bod yn hygyrch iddynt. |

Ar hyn o bryd, ni allwn ddarparu tystiolaeth feintiol ynglŷn â'r bobl sy'n ymweld â'r Senedd. Rydym wedi cwblhau Arolwg o Bobl wrth iddynt adael y Senedd a bydd pod rhyngweithiol gennym yno cyn bo hir lle bydd pobl yn gallu rhoi eu hymateb. Bydd system adborth ar bapur ar gael hefyd.

Mae ein Tîm Maes yn gweithio gyda grwpiau yn y gymuned ledled Cymru, gan eu hannog i ymweld â'r Cynulliad. Yn ystod y flwyddyn diwethaf, mae aelodau o fudiadau, gan gynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Shelter Cymru wedi ymweld â'r Cynulliad am y tro cyntaf fel rhan o'r gwaith partneriaeth gyda'r Tîm Maes.

Mae'r Tîm Addysg hefyd wedi croesawu grwpiau o fyfyrwyr o unedau anghenion arbennig o fewn ysgolion y brif ffrwd ac wedi darparu sesiynau maes i'r grwpiau hynny ac i grwpiau tebyg.

| | Canlyniad/Amcan Gofynnol |
|---|---|
| C5 | Bod teithiau tywys o gwmpas y Senedd yn hygyrch i ymwelwyr a chanddynt nam ar y synhwyrau. |

Mae hygyrchedd ein llenyddiaeth wrthi'n cael ei adolygu yn unol â'n polisi gwybodaeth hygyrch. Mae teithiau ar gael i holl bobl Cymru a darperir ar gyfer gofynion penodol pan fydd hynny'n rhesymol ac yn ymarferol. Bydd teithiau gyda dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain ar gael os trefnir hynny ymlaen llaw.

| | Canlyniad/Amcan Gofynnol |
|---|---|
| C6 | Bod mwy o grwpiau o bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig a phobl ifanc anabl yn ymweld â chanolfan addysg y Cynulliad. |

Sefydlwyd cysylltiadau ag ysgolion a cholegau ledled Cymru i hyrwyddo'r Cynulliad fel rhywle i blant a phobl ifanc ymweld ag ef. Er ein bod yn mynd ati'n fwriadol i dargedu ysgolion anghenion addysgol arbennig ac ysgolion y brif

ffrwd lle mae unedau anghenion addysgol arbennig, ni allwn dargedu'n benodol blant o wahanol leiafrifoedd ethnig. Nid ydym ychwaith yn gallu monitro ethnigrwydd y plant sy'n ymweld â'r ganolfan addysg.

Rydym wedi cynhyrchu cronfa ddata o'r holl unedau cyfeirio disgyblion ac mae un o'n swyddogion addysg maes wedi creu cysylltiadau ag ysgol arbennig i geisio mwy o gyngor ynglŷn â sut y dylem addysgu disgyblion anghenion arbennig. Rydym yn awr yn croesawu SPORSTRAIN CYMRU i'r Cynulliad bob blwyddyn ac mae'r grwpiau'n cael ymweliadau maes addysg drwy gydol y flwyddyn. Grŵp o ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd o addysg y brif ffrwd yw'r rhain. Mae un o arweinwyr SPORTSTRAIN CYMRU bellach wedi symud i swydd gyda'r Coleg Paratoi Milwrol a bydd y gwasanaeth maes addysg yn gweithio gyda'u myfyrwyr anghenion arbennig yn 2011.

Mae'r Tîm Maes wedi bod yn gweithio i gynyddu cyfranogaeth drwy ddarparu gweithdai ar gyfer pobl ifanc sy'n ymwneud â Chyngor Ffoaduriaid Cymru a Mwslimiaid Ifanc Cymru ynglŷn â Deall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Ymgysylltu â'r sefydliad.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| C7 | Gwneud digwyddiadau'r Cynulliad yn fwy hygyrch i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ledled Cymru. |

Cynrychiolwyd y Cynulliad mewn cyfres o ddigwyddiadau dros yr haf mewn amrywiaeth o leoliadau hygyrch ledled Cymru. Ymhlith y digwyddiadau hynny, roedd Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala a Mardi Gras Cymru Caerdydd. Bu trawstoriad mawr o Gymdeithas Cymru'n ymgysylltu â'r Cynulliad yn y digwyddiadau hyn drwy gyfrwng gweithgareddau rhyngweithiol ar lein ac amrywiaeth o holiaduron.

Bu'r tîm Digwyddiadau'n bresennol hefyd yn y Mardi Gras yng Nghae Cooper, Caerdydd. Aethant â'r bws Maes yno ac fe'i staffiwyd gan y tîm digwyddiadau a'n Rhwydwaith Staff LHDT, OUT-NAW.  Llenwyd llawer o holiaduron am ein hymgysylltu â'r gymuned LHDT a chafwyd barn pobl am y ffyrdd gorau o gyfathrebu â phobl am etholiadau'r Cynulliad a'r refferendwm ar bwerau'r Cynulliad yn 2011.

Bydd ein tîm Maes yn darparu gweithdai a chyflwyniadau a hefyd yn mynychu digwyddiadau yn y rhanbarthau gan roi gwybodaeth i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ledled Cymru.

Mae ein tîm Addysg wedi paratoi ac wedi brandio llawer o daflenni gwaith ar sawl lefel ar gyfer pob math o allu i bobl sy'n ymweld â'r Senedd ac â'n bws yn nigwyddiadau'r haf.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| C8 | Bod pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn gwylio ac/neu yn ymwneud â thrafodion y Cynulliad (e.e. pwyllgorau, cyfarfodydd llawn a'r system deisebau) |

Mae ein strategaeth e-ddemocratiaeth newydd yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn amrywiaeth o fformatau ac yn targedu gwahanol grwpiau gan ddefnyddio cyfryngau priodol ar gyfer y grŵp hwnnw, megis ffeiliau sain a ffeiliau fideo. Mae dogfennau hawdd eu darllen wrthi'n cael eu datblygu yn ogystal â fersiynau cryno hygyrch o ddogfennau allweddol y Cynulliad. Mae cyfarwyddiadau clir ar gael ar gyfer pob dogfen allweddol sy'n dweud bod angen eu darparu mewn gwahanol fformatau a gwahanol ieithoedd yn ôl y gofyn.

Mae ein Tîm Maes wedi gweithio gyda Phwyllgorau'r Cynulliad i sicrhau bod grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ymgysylltu mwy â thrafodion y Cynulliad.

Dros y flwyddyn diwethaf, mae'r tîm wedi bod yn gweithio gyda grŵp o Shelter Cymru i'w helpu i ddeall y Cynulliad ac ymgysylltu â'r sefydliad. Yn ei dro, yn sgil hyn, cyflwynodd y grŵp ddeiseb i'r Cynulliad, ac wedyn, rhoddodd dystiolaeth i'r pwyllgor am y ddeiseb.

Mae'r tîm hefyd wedi gweithio'n glos gyda'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar eu hymchwiliad Lleoedd Diogel i Chwarae a Chymdeithasu, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc o bob cwr o Gymru wedi cael y cyfle i ymateb drwy holiadur. Rydym hefyd wedi hyrwyddo ymchwiliadau'r Pwyllgor i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a Chynhwysiant Ariannol i grwpiau a sefydliadau lleol perthnasol.

Mae taflenni hygyrch wedi'u cyhoeddi i geisio cael pobl i ymgysylltu â'r drefn ddeisebau. Yn ogystal â'r fersiwn hawdd ei darllen o'r daflen 'Cyflwynwch ddeiseb mewn tri cham', rydym hefyd wedi datblygu sgript yn Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer fideo BSL a gyhoeddir cyn bo hir am y broses deisebau. Rydym hefyd wedi cynhyrchu deunyddiau sy'n esbonio gwaith y Cynulliad i bobl ifanc ac yn eu hannog i gymryd rhan mewn ymchwiliadau, er enghraifft. Rydym wedi cyhoeddi cylchlythyron hefyd a'r rheini'n glir ac yn ddeniadol i'r llygad i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

Yn ystod Gwanwyn a Haf 2010 mae'r Tîm Addysg hefyd wedi gweithio'n glos gyda'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar eu hymchwiliad i Fannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc o bob cwr o Gymru wedi cael y cyfle i ymateb drwy holiadur. Yn ystod mis Tachwedd 2010, bu'r Tîm Addysg yn gweithio'n glos gydag un o'n Pwyllgorau Deddfwriaeth ar yr ymgynghoriad ar deithio a chludiant i'r ysgol ac adref. Unwaith eto, roedd hyn yn gyfle i sicrhau bod plant a phobl ifanc o bob cwr o Gymru'n cael cyfle i ymateb a lleisio barn drwy holiadur. Dychwelwyd cannoedd lawer o holiaduron.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| C9 | Bod staff y rheng flaen wedi'u hyfforddi i groesawu pobl ag amrywiol anghenion i'r Cynulliad a'u bod yn teimlo'n hyderus yn gwneud hynny. |

Mae pob aelod o staff y rheng flaen wedi dilyn y cwrs hyfforddi Diwylliant, Hygyrchedd ac Amrywiaeth. Nod hwnnw yw gwella gwybodaeth a sgiliau staff wrth iddynt groesawu ymwelwyr â gwahanol anghenion. Mae staff y rheng flaen wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth â byddardod ac a byddardod dall hefyd er mwyn rhoi mwy o hyder iddynt wrth iddynt ymwneud ag ymwelwyr a chanddynt wahanol anghenion cyfathrebu.

Mae rhai o staff y rheng flaen hefyd wedi llwyddo yn arholiad lefel 1 Iaith Arwyddion Prydain, ac maent ar fin dechrau lefel 2. Mae'r staff eisoes wedi defnyddio'u sgiliau i groesawu ymwelwyr byddar ag ystâd y Cynulliad ac i roi gwybodaeth iddynt.

**Cynllun Gweithredu - TGCh**

| | Canlyniad/Amcan Gofynnol |
|---|---|
| D1 | Bod y wefan yn hygyrch ac yn rhwydd i bawb, gan gynnwys pobl anabl, ei defnyddio. |

Mae'r Cynulliad wedi defnyddio sawl llwyfan cyfrwng cymdeithasol i ymgysylltu â chynulleidfa ddigidol newydd, gan rannu gwybodaeth am ddeddfwriaeth, craffu, digwyddiadau, esboniadau am yr hyn y mae'r Cynulliad yn ei wneud, a sut y gall y cyhoedd ymgysylltu â'r sefydliad. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu cyfrifon ar Twitter, Facebook, Flickr ac YouTube. Yn ogystal â hynny, mae gwaith wedi'i wneud i fireinio a gwella'r wefan gymaint ag y bo modd o fewn cyfyngiadau presennol, er mwyn gwneud yr wybodaeth sydd yno eisoes yn fwy hygyrch.

Rydym wrthi'n archwilio llwybrau posibl ar gyfer datblygu gwefan newydd i'r Cynulliad. Bydd unrhyw ddatblygiadau newydd yn cadw at y safonau hygyrchedd uchaf. Bydd unrhyw ddatblygu ar y safle'n cael ei brofi ar ddefnyddwyr er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd ei defnyddio ac yn hygyrch.

| | Canlyniad/Amcan Gofynnol |
|---|---|
| D2 | Bod offer TG yn hygyrch ac yn cael ei ddarparu'n brydlon ar gyfer staff a chanddynt ofynion penodol. |

Darparwyd cyfrifiaduron desg a gliniaduron newydd i holl staff y Cynulliad sy'n golygu eu bod yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr unigol. Mae'r prosiect hefyd wedi gwella darpariaethau gweithio gartref i Aelodau'r Cynulliad, i'w staff cymorth ac i staff y Cynulliad.

| | Canlyniad/Amcan Gofynnol |
|---|---|
| D3 | Datblygu nodweddion newydd i'r wefan er mwyn galluogi'r cyhoedd yn ddiwahân i ymgysylltu llawn â hi. |

Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi'u cynnwys yng ngwefan y Cynulliad. Mae dolenni at Facebook, twitter a Flickr wedi'u hychwanegu at y brif hafan er mwyn i ddefnyddwyr allu dilyn newyddion y cynulliad, digwyddiadau a busnes o fath arall ar y llwyfannau hyn hefyd.

Yn 2010, lansiwyd gwefan addysg newydd, Crwydro'r Senedd, i roi gwybodaeth fwy hygyrch i bobl am sut mae'r Cynulliad yn gweithio a'i wasanaethau. Un o brif amcanion strategol y Cynulliad hwn yw cynyddu cyfranogaeth yn y broses ddemocrataidd, a rhan greiddiol o hynny yw ennyn pobl ifanc i ddangos diddordeb mewn datganoli.

Cafodd Senedd tv ei ailwampio'n ddiweddar hefyd. Dyma'r porth i wylio trafodion y Cynulliad a fideos ar lein er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch ac yn haws eu defnyddio.

Er mwyn gwella'r ymwneud â'r broses ddemocrataidd, rydym hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth am yr etholiadau a gynhelir ym 2011 ar sawl fformat, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain a thestun hawdd ei ddarllen ac mae'r rheini ar gael ar lein.

**Cynllun Gweithredu - Caffael /Rheoli'r Cyflenwad**

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| E1 | Bod ein cyflenwyr yn gweithredu yn ôl y safon uchaf o ran cydraddoldeb; rhoddir gwybod yn glir i'r gadwyn cyflenwi bod cydraddoldeb yn bwysig inni fel sefydliad ac y disgwylid i gyflenwyr weithredu'n unol â hynny. |

Seilir System Caffael y Cynulliad ar set o werthoedd sylfaenol a fabwysiedir gan Gomisiwn y Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys gofyniad bod y broses caffael yn rhoi sylw llawn i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ein golwg ni, yn un elfen ar agwedd gymdeithasol Cynaliadwyedd. Mae ein Gwerthoedd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hefyd wedi bwrw gwreiddiau yn ein polisi caffael sy'n mynnu bod pob cyflenwr, tendrwr, ymgynghorydd a chontractwr yn rhannu ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth a'u bod yn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth bresennol. Caiff y gofynion hyn wedyn eu cynnwys mewn canllawiau i reolwyr contractau ac yn ein templed manyleb safonol sy'n gymorth i reolwyr contractau sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael sylw ym manyleb pob contract. Mae cydymffurfio â deddfwriaeth cyfle cyfartal yn amod ym mhob contract y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n ei lofnodi. Wrth dorri'r amod hwnnw, torrid y contract a byddai hynny'n cael ei drafod yn unol â'r

gweithdrefnau sy'n rhan o delerau ac amodau safonol ein contractau. Mae hyn yn cynnwys yr opsiwn i derfynu'r contract.

**Cynllun Gweithredu - Rheoli Ystadau a Chyfleusterau**

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| F1 | Bod adeiladau'n cynnig amgylchedd diogel, hygyrch a glân i staff, staff contract, Aelodau'r Cynulliad, eu staff hwythau ac ymwelwyr. |

Bydd y Tîm Ystadau a Chyfleusterau'n sicrhau bod adeiladau ar draws yr ystâd yn cydymffurfio â chanllawiau statudol ac yn cynnig amgylchedd hygyrch - mae hyn yn cynnwys Rhan M o'r rheoliadau adeiladu, y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a Gorchymyn Diwygio Rheoleiddiol (Diogelwch Tân) 2005. Bydd y Tîm yn ymgynghori â'r Cynghorydd Iechyd a Diogelwch a'r Cynghorydd Hygyrchedd cyn newid dim. Pan fydd angen, byddwn hefyd yn ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau anabl er mwyn sicrhau bod ein mannau yn hygyrch. Wrth ailddatblygu'r Pierhead, cynullwyd grŵp hygyrchedd i gynghori tîm y prosiect. Mae'r newid a ganlyn wedi'i wneud i adeilad y Senedd er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch i'r holl staff, i Aelodau'r Cynulliad ac i ymwelwyr yn ystod y flwyddyn diwethaf.

- Estyn y canllawiau dur y tu allan i atal damweiniau

| | Canlyniad/Amcan Gofynnol |
|---|---|
| F2 | Bod gweithfannau i staff, Aelodau'r Cynulliad, eu staff hwythau a staff eraill ar gontract yn weithfannau ergonomig a hygyrch. |

Bydd offer sgriniau arddangos yn cael eu hasesu gyda'r staff pan fyddant yn ymuno â'r Cynulliad am y tro cyntaf. Ar ôl hynny, cynhelir arolwg blynyddol, ond gall y staff fodd bynnag ofyn am gael arolwg o'r fath unrhyw bryd e.e. os ydynt wedi cael anaf gartref neu wedi cael llawdriniaeth. Bydd tîm gweithrediadau Adnoddau Dynol yn gofyn hefyd am arolygon ar ôl cyfnod o absenoldeb, bydd y Nyrs Iechyd Galwedigaethol yn gofyn am arolygu gweithfannau ar ôl ymgynghori â'r staff. Cynhelir arolygon / asesiadau arbenigol gan y Cynghorydd Iechyd a Diogelwch. Yn ystod 2010, cynhaliwyd tri deg ac un o arolygon 'arbenigol' gan y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch. Mae ASau yn gyflogwyr eu hunain,

felly, nid ydynt yn dod o dan gylch gorchwyl Comisiwn y Cynulliad. Felly, mae angen iddynt gael eu trefniadau DSE eu hunain yn Nhŷ Hywel ac yn eu swyddfeydd etholaeth. Serch hynny, mae'r Cynghorwr Iechyd a Diogelwch bob tro ar gael i gynnal asesiadau neu i ddarparu gwybodaeth neu gyngor perthnasol dim ond i rywun ofyn.

| | Canlyniad/Amcan Gofynnol |
|---|---|
| F3 | Bod Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch yn rhoi sylw i gydraddoldeb a hygyrchedd |

Bydd y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch yn cynnal asesiadau risg yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ac yn sicrhau bod hygyrchedd a chydraddoldeb yn cael sylw ym mhob asesiad risg. Yn ystod 2010, bu'r Cynghorydd Iechyd a Diogelwch yn gweithio'n glos â'r Cynghorydd Hygyrchedd i ddrafftio polisi a gweithdrefn ar gyfer Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng gan ddyfeisio cynllun personol o'r fath ar gyfer defnyddiwr cadair olwyn yn Nhŷ Hywel.  Arweiniodd hwn at ystyried sut y byddai pobl anabl yn gadael cefn adeilad y Pierhead. Mae Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng wedi'u cynnwys hefyd ym mhecyn hyfforddi'r Warden Tân a hyfforddwyd staff ychwanegol i ddefnyddio cadeiriau achub.

**Cynllun Gweithredu - Tîm Diogelwch**

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| G1 | Bod staff y tîm diogelwch yn broffesiynol, wedi'u hyfforddi ac yn teimlo'n hyderus i ymdrin ag amrywiaeth o wahanol ymwelwyr a chanddynt anghenion gwahanol. |

Mae pob un o'n staff diogelwch wedi dilyn cwrs hyfforddi Diwylliant, Hygyrchedd ac Amrywiaeth i godi ymwybyddiaeth o wahanol anghenion pobl sy'n ymweld â'r Cynulliad. Mae staff diogelwch hefyd wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio Cadeiriau Achub Hyfforddiant Tân a Chyrsiau Ymwybyddiaeth o Fyddardod, Byddardod Dall ac Iaith Arwyddion Prydain. Mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod anghenion ymwelwyr yn cael eu diwallu, gan gynnwys anghenion y rheini sy'n cario kirpan (cyllell seremonïol y Sikh), menywod yn cael archwiliad diogelwch gan fenywod eraill os byddant yn gofyn

am hynny, cadeiriau olwyn a chymorth arall sydd ar gael pan fydd angen. Yn ystod 2011 bydd mwy o hyfforddiant rheng flaen ar gyfer swyddogion diogelwch ac efallai y bydd angen cymryd camau pendant i recriwtio mwy o fenywod a mwy o siaradwyr Cymraeg i'r tîm.

**Cynllun Gweithredu - Busnes y Cynulliad**

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| H1 | Rhoddir cyfleoedd i'r Aelodau ystyried cydraddoldeb yn eu gwaith yn y Cynulliad ac yn eu hetholaethau |

Mae gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ganllawiau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o brif ffrwd briffiau i Aelodau unigol o'r Cynulliad a phwyllgorau. Bydd Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n gweithio mewn sawl ffordd i gyflawni hyn:

- Mae cydraddoldeb yn cael ei ystyried fel mater o drefn wrth gynnig trywydd holi i bob pwyllgor
- Mae'r meysydd a awgrymir i holi yn eu cylch o safbwynt cydraddoldeb yn cael eu dyfeisio i ymchwilwyr eu cynnwys yn eu briffiau am y gyllideb i bwyllgorau.
- Anogir ymchwilwyr i chwilio am gyfleoedd i fynd i'r afael â chydraddoldeb drwy gynnwys yr ystyriaethau hynny yng Nghylchoedd Gorchwyl ymchwiliadau pwyllgorau, gan gynorthwyo i godi proffil cydraddoldeb.
- Bydd briffiau'n cael eu gwirio gan gydweithwyr gan ddefnyddio'r canllawiau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi cael sylw.
- Mae gan ymchwilwyr yr wybodaeth am eu pwnc a'r sgiliau ymchwilio i sicrhau bod grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ymwneud â gwaith pwyllgorau
- Mae ystyriaethau ynglŷn â chydraddoldeb wedi'u cynnwys yn y briffiau i Aelodau i sicrhau bod pobl â gwahanol safbwyntiau'n cael cais i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a llafar.
- Bydd ymchwilwyr yn gweithio'n glos gyda Chlercod Pwyllgorau i gynhyrchu fersiynau hawdd eu darllen o adroddiadau pwyllgorau er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch i grŵp ehangach o bobl.
- Mae'r Tîm Arwain Cydraddoldeb a Thîm y Llyfrgell yn rhagweithiol wrth anfon dolenni at wahanol adroddiadau a ffynonellau gwybodaeth at bob ymchwilydd yng Ngwasanaeth Ymchwil yr Aelodau neu i ymchwilwyr perthnasol er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o gydraddoldeb.
- Darparwyd mwy o gyfleoedd i ymchwilwyr sy'n gweithio mewn amrywiol feysydd polisi ymwneud â'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Mae hyn wedi rhoi cyfle i fwy o ymchwilwyr ymwneud â materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb

ac i feithrin mwy o ymwybyddiaeth o'r materion hynny yn eu gwahanol feysydd pwnc e.e. trafnidiaeth. Mae hyn wedi bod o gymorth i brif-ffrydio cydraddoldeb drwy'r gwasanaeth.

Mae gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ganllawiau ar waith ynglŷn â sut mae rhoi sylw i gydraddoldeb yn eu gwaith ysgrifenedig ac mae seminarau wedi'u cynnal ar Ystyried Cydraddoldeb er mwyn i ymchwilwyr gael profiad ymarferol o roi'r canllawiau ar waith. Yn ogystal â'r seminarau hyn, a oedd yn orfodol i'r holl staff, cynhaliwyd seminarau ychwanegol i ymchwilwyr, gan gynnwys seminar ar gyllidebu ar gyfer rhywedd.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| H2 | Bod yr ymchwil a gyhoeddir ar dudalennau gwe Cynulliad Cenedlaethol Cymru mor hygyrch ag y bo modd. |

Cyhoeddir papurau ymchwil yn Gymraeg ac yn Saesneg bellach ac maent ar gael ar fformatau amgen dim ond i rywun ofyn. Mae pob cyhoeddiad ar gael ar wefan y Cynulliad sy'n cynnwys datganiad bod cyhoeddiadau ar gael ar fformatau amgen.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| H3 | Ymgynghorir yn briodol â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol pan fydd pwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth yn galw am dystiolaeth. |

Mae cydweithwyr ar draws y sefydliad yn dal i gydweithio i ddatblygu un gronfa ddata gynhwysfawr o gysylltiadau. Pan fydd honno'n gyflawn, bydd y gronfa ddata'n ei gwneud yn haws i'r staff fynd ati i geisio barn amrywiaeth eang o grwpiau ac unigolion. Ar hyn o bryd, mae gan ysgrifenyddiaeth pob pwyllgor gronfeydd data unigol sy'n berthnasol i'w maes polisi penodol hwy eu hunain. Bydd staff y Swyddfa Ddeddfwriaeth a'r Gwasanaeth Pwyllgorau'n ymgynghori â Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, y Tîm Cydraddoldeb ac aelodau'r pwyllgor i weld a oes grwpiau ychwanegol yn berthnasol i bob ymchwiliad penodol.

- Mae'r staff yn mynd ati'n rhagweithiol i gysylltu â chyrff allanol sy'n cynrychioli grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gyfarfod â hwy i drafod materion perthnasol a mynd i gynadleddau priodol, gan gynnwys cyfarfod â chynrychiolwyr o RNID, Shelter, Tros Gynnal, Stonewall Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar, Scope Cymru ac Age Concern Cymru.

- Dyma ambell enghraifft o ymgynghori â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn 2010: daeth plant o gefndiroedd sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am eu profiadau o fyw mewn tlodi; daeth cyn filwyr a oedd yn dioddef o anhwylder straen ar ôl trawma i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i sôn am y problemau yr oeddent yn eu hwynebu'n ceisio cael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl, bu Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a'r tîm Maes yn gweithio gyda Shelter Cymru i gyfarfod â grŵp o bobl ifanc a oedd yn ddigartref/ yn wynebu problemau ym maes tai.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| H4 | Bod cofnodion cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgor yn gwbl hygyrch i'r staff, i Aelodau'r Cynulliad ac i'r cyhoedd drwy gyfrwng gwefan y Cynulliad a'u bod yn cydymffurfio'n llawn â safonau AA |

Bydd cofnodion cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd pwyllgor yn cael eu cyhoeddi mewn pryd yn ddi-ffael. Cyhoeddir Cofnod Trafodion cyfarfodydd Llawn mewn tair fformat - HTML, PDF a Word - er mwyn iddo fod mor hygyrch ag y bo modd i gynifer ag y bo modd. Mae gwahaniaeth amlwg rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg, sy'n golygu ei fod yn hawdd i bawb ei ddefnyddio, ond yn enwedig i bobl â nam ar eu golwg. Nid oes cais wedi dod i law am fformat amgen.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| H5 | Bod offer dehongli ar gael i'r holl staff, i Aelodau'r Cynulliad, i dystion pwyllgorau, i ymwelwyr ac i'r cyhoedd. |

Mae'r amcan hwn wedi'i gyflawni oherwydd mae'r offer yn hygyrch, mae'n hawdd ei ddefnyddio ac nid yw'n drwm. Mae'n gwbl gydwedd â'r holl systemau dolenni clyw yn y Senedd, yn Nhŷ Hywel ac yn swyddfa'r gogledd. Rydym wedi cael adborth cadarnhaol ar lafar gan gwsmeriaid ar sawl achlysur. Rydym wrthi'n diweddaru ein hoffer a byddwn yn sicrhau bod y rhain hefyd yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio'r system cymorth clyw.

Mae offer dehongli yn dal ar gael i bob defnyddiwr, mae hyn yn cynnwys: pensetiau i chwyddo'r sain, sgriniau yn y galeri cyhoeddus ar gyfer fideo ac arwyddion fideo.

**Cynllun Gweithredu - y Tîm Gwasanaeth Cyfreithiol**

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| I1 | Bod aelod o'r gwasanaeth yn arbenigo ym maes cydraddoldeb ac yn gyfrifol nid yn unig am roi cyngor arbenigol am faterion o'r fath ond hefyd am ledaenu gwybodaeth am y materion hyn i gyfreithwyr eraill. |

Neilltuwyd aelod o'r Tîm Gwasanaeth Cyfreithiol i fod yn gyfrifol am ddarparu cyngor arbenigol am faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Mae Aelodau'r Cynulliad a'r staff yn fwy ymwybodol o gydraddoldeb ac yn gwybod mwy amdano drwy gael cyngor cyfreithiol a briffiau am agweddau o gyfraith cydraddoldeb gan gynnwys, yn fwyaf diweddar, ddarpariaethau penodol Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae cyfreithwyr wedi sefydlu cysylltiadau â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac wedi lledaenu gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb i'w cydweithwyr ym mhob rhan o'r sefydliad.

| | **Canlyniad/Amcan Gofynnol** |
|---|---|
| I2 | Cyn diwedd cyfnod y Cynllun, bod pob cyfreithiwr yn cael hyfforddiant priodol sy'n canolbwyntio ar faterion cyfreithiol yn ymwneud â chydraddoldeb. |

Yn unol â gofynion hyfforddi Cymdeithas y Cyfreithwyr, bydd pob cyfreithiwr yn gyfrifol am sicrhau ei hyfforddiant a'i ddatblygiad proffesiynol ei hun ac am gadw cofnodion hyfforddi i gryfhau a gwella'i wybodaeth a'i ddealltwriaeth o ddeddfwriaeth, gan gynnwys deddfwriaeth cydraddoldeb.

Hyfforddiant ym maes cydraddoldeb yw un o amcanion parhaus Adroddiadau Rheoli a Datblygu Perfformiad pob cyfreithiwr yn y Gwasanaethau Cyfreithiol.

Yn fwyaf diweddar, ym mis Hydref 2010, bu cyfreithwyr ar gwrs hyfforddi am gydraddoldeb a gynhaliwyd yn fewnol lle'r ystyriwyd Deddf Cydraddoldeb 2010. Trafodwyd ystod o faterion perthnasol, gan gynnwys effaith gorlywodraethol y Ddeddf ar Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol, y Ddeddf fel mae'n berthnasol i gyfraith cyflogaeth, Gwahaniaethu ar sail Anabledd, a'r newidiadau diweddar i Gyfraith Gyhoeddus.

| | Canlyniad/Amcan Gofynnol |
|---|---|
| I3 | Bod cyfreithwyr yn paratoi adroddiadau rheolaidd ar gyfer y Tîm Cydraddoldeb a Hygyrchedd am statws presennol y Cynulliad a'r Comisiwn o fewn fframwaith deddfwriaeth ryngwladol, y Gymuned Ewropeaidd, y Deyrnas Unedig a Chymru. |

Bydd y Tîm Cydraddoldeb a Hygyrchedd yn cysylltu â Gwasanaethau Cyfreithiol pan fydd gofyn cyngor a chymorth cyfreithiol arnynt. Rhoddir briffiau cyfreithiol i'r Tîm Cydraddoldeb a Hygyrchedd am amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, gan gynnwys am Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Atodiad B: Ystadegau'r gweithlu yn ôl maes cydraddoldeb**

**Ein gweithlu**

Tynnir yr wybodaeth a ddarperir isod o'n system TG Adnoddau Dynol. Gan fod y system yn dibynnu ar staff yn cofnodi eu statws hwy eu hunain yn ôl y meysydd cydraddoldeb, mae bylchau yn y data o hyd lle nad yw'r staff wedi diweddaru eu proffil personol.

Ethnigrwydd staff y Cynulliad *

| **Ethnigrwydd** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Gwyn | 314 |
| Ethnigrwydd arall | 16 |
| Heb ei gofnodi | 17 |
| **Cyfanswm** | **347** |

Rhywedd staff y Cynulliad yn ôl graddfa*

| **Graddfa** | **Benyw** | **Gwryw** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Cymorth Tîm | 37 | 71 | 108 |
| Band Rheoli 3 | 26 | 30 | 56 |
| Band Rheoli 2 | 58 | 30 | 88 |
| Band Rheoli 1 | 28 | 20 | 48 |
| Band Gweithredol 2 | 16 | 14 | 30 |
| Band Gweithredol 1 | 8 | 3 | 11 |
| Cyflogedig | 0 | 2 | 2 |
| S-2 | 1 | 2 | 3 |
| S-1 | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **175** | **172** | **347** |

Grwpiau oedran yn ôl rhywedd*

| **Grŵp oedran** | **Benyw** | **Gwryw** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 20-25 | 12 | 6 | 18 |
| 25-30 | 33 | 31 | 64 |
| 30-35 | 35 | 29 | 64 |
| 35-40 | 24 | 17 | 41 |
| 40-45 | 21 | 19 | 40 |
| 45-40 | 16 | 20 | 36 |
| 50-55 | 19 | 16 | 35 |
| 55-60 | 9 | 19 | 28 |
| 60-65 | 5 | 14 | 19 |
| Dros 65 | 1 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **175** | **172** | **347** |

Staff anabl yn y Cynulliad *

| **Natur yr anabledd** | **Cyfanswm** |
|---|---:|
| Anawsterau Dysgu (yn unig) | 1 |
| Anhawster symud (yn unig) | 1 |
| Heb fod yn anabl | 205 |
| Anawsterau Cydlynu Corfforol (yn unig) | 1 |
| Llai o Allu Corfforol (yn unig) | 2 |
| Anabledd Anhysbys | 2 |
| Dewis peidio â dweud â dweud /heb gofnodi | 135 |
| **Cyfanswm** | **347** |

Cyfeiriadedd rhywiol staff *

| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | **Cyfanswm** |
|---|---:|
| Dyn deurywiol | 1 |
| Dyn hoyw | 5 |
| Menyw hoyw/ lesbiad | 1 |
| Cyfunrywiol | 73 |
| Dewis peidio â dweud /heb gofnodi | 267 |
| **Cyfanswm** | **347** |

* ar 31 Rhagfyr 2010

**Atodiad C: Ystadegau Cydraddoldeb Recriwtio Ionawr - Rhagfyr 2010**

Daw'r ystadegau a gyflwynir isod o'r ffurflenni monitro Cydraddoldeb a gyflwynwyd gyda ffurflenni cais am swyddi ar gyfer y cynlluniau recriwtio allanol rhwng 1 Ionawr 2010 a 31 Rhagfyr 2010. Ni fydd pob ymgeisydd yn cyflwyno'r ffurflenni nac yn eu llenwi'n gyflawn. Mae a wnelo'r data â cheisiadau mewnol ac allanol.

**Rhywedd**

| | Ceisiadau a gafwyd | Llwyddiannus wrth ddidoli | Cynnig swydd | Wrth gefn |
|---|---|---|---|---|
| Benyw | 301 | 53 | 9 | 8 |
| Gwryw | 287 | 48 | 15 | 5 |
| Traws | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Anabledd**

| | Ceisiadau a gafwyd | Llwyddiannus wrth ddidoli | Cynnig swydd | Wrth gefn |
|---|---|---|---|---|
| Dim Anabledd | 476 | 83 | 21 | 12 |
| Anhawster Dysgu | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Anabledd Corfforol | 6 | 1 | 0 | 0 |
| Anabledd Synhwyrol | 6 | 1 | 0 | 0 |
| Iechyd meddwl | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Cyflwr Meddygol | 4 | 0 | 0 | 0 |
| Heb ei nodi'n benodol | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 4 | 0 | 0 | 0 |
| Dewis peidio â | 9 | 2 | 3 | 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| dweud | | | | |
| Dim ateb | 78 | 14 | 0 | 0 |

**Cynllun Gwarantu Cyfweliad**

| | Ceisiadau a gafwyd | Llwyddiannus wrth ddidoli | Cynnig swydd | Wrth gefn |
|---|---|---|---|---|
| Cyfweliad wedi'i Warantu | 6 | 1 | 0 | 0 |
| Cyfweliad heb ei Warantu | 582 | 100 | 24 | 13 |

**Ethnigrwydd**

| | Ceisiadau a gafwyd | Llwyddiannus wrth ddidoli | Cynnig swydd | Wrth gefn |
|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 513 | 90 | 22 | 13 |
| Asiaidd - Indiaidd | 11 | 3 | 1 | 0 |
| Asiaidd - Bangladeshaidd | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Asiaidd - Tseineaidd | 4 | 0 | 0 | 0 |
| Asiaidd - Pacistanaidd | 5 | 0 | 0 | 0 |
| Du - Affricanaidd | 6 | 1 | 1 | 0 |
| Du - Caribïaidd | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Cymysg Asiaidd a Gwyn | 2 | 1 | 0 | 0 |
| Cymysg Du | 1 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Affricanaidd a Gwyn | | | | |
| Cymysg Du Caribïaidd a Gwyn | 2 | 1 | 0 | 0 |
| Cefndir Asiaidd Arall | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Cefndir Du Arall | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Dim ateb | 37 | 4 | 0 | 0 |

**Cenedligrwydd**

| | Ceisiadau a gafwyd | Llwyddiannus wrth ddidoli | Cynnig swydd | Wrth gefn |
|---|---|---|---|---|
| Prydeinwyr neu Brydeinwyr Cymysg | 280 | 47 | 10 | 3 |
| Saeson | 3 | 2 | 2 | 0 |
| Gwyddelod | 6 | 2 | 0 | 1 |
| Albanwyr | 2 | 1 | 1 | 0 |
| Cymry | 230 | 38 | 9 | 8 |
| Hunaniaeth Genedlaethol Arall | 46 | 7 | 2 | 0 |
| Dim ateb | 21 | 4 | 0 | 1 |

## Oedran

| Oedran | Ceisiadau a gafwyd | Llwyddiannus wrth ddidoli | Cynnig swydd | Wrth gefn |
|---|---|---|---|---|
| Dan 20 oed | 4 | 0 | 0 | 0 |
| 20 – 24 | 159 | 17 | 6 | 5 |
| 25 – 29 | 92 | 16 | 5 | 2 |
| 30 – 34 | 103 | 19 | 3 | 1 |
| 35 – 39 | 32 | 6 | 1 | 1 |
| 40 – 44 | 52 | 10 | 0 | 1 |
| 45 – 49 | 11 | 2 | 0 | 0 |
| 50 – 54 | 30 | 8 | 2 | 2 |
| 55 – 59 | 18 | 10 | 3 | 1 |
| Dros 60 | 9 | 4 | 3 | 0 |
| Dim ateb | 78 | 9 | 1 | 0 |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Ceisiadau a gafwyd | Llwyddiannus wrth ddidoli | Cynnig swydd | Wrth gefn |
|---|---|---|---|---|
| Cyfunrywiol | 482 | 81 | 19 | 10 |
| Dyn deurywiol | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Menyw ddeurywiol | 6 | 1 | 0 | 0 |
| Menyw hoyw/ lesbiad | 3 | 1 | 0 | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dyn hoyw | 11 | 2 | 1 | 0 |
| Dewis peidio â dweud | 18 | 3 | 0 | 1 |
| Dim ateb | 65 | 13 | 4 | 2 |

**Atodiad D: Arolwg Cyflogau Cyfartal - Canolrif Cyflogau sy'n Cyfateb i Amser Llawn ar 31 Rhagfyr 2010**

| | Cyflog Sylfaenol | | | | Cyfanswm Cyflog * | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwryw | Benyw | % Gwahaniaeth. | | Gwryw | Benyw | % Gwahaniaeth. |
| Tîm: | £20,280 | £20,280 | 0.0% | | £20,280 | £20,280 | 0.0% |
| Band Rheoli 3 | £22,450 | £23,484 | 4.6% | | £22,450 | £23,484 | 4.6% |
| Band Rheoli 2 | £30,724 | £32,245 | 5.0% | | £31,447 | £33,665 | 7.1% |
| Band Rheoli 1 | £40,966 | £40,966 | 0.0% | | £42,588 | £42,588 | 0.0% |
| Band Gweithredol 2 | £53,053 | £50,943 | -4.0% | | £55,162 | £50,943 | -7.6% |
| Band Gweithredol 1 | £67,735 | £63,994 | -5.5% | | £67,735 | £63,994 | -5.5% |
| Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Chynghorwyr Arbennig | £106,660 | £128,032 | 20.0% | | £106,660 | £128,032 | 20.0% |
| | | | | | | | |
| Yr Holl Staff | £22,450 | £31,485 | 40.2% | | £24,519 | £32,578 | 32.9% |

*gan gynnwys lwfansau amrywiol sydd ar gael i'r staff